

Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Dechrau'r Ysgol

Gwybodaeth am ddewis
ysgol i'ch plentyn



2025-2026



YSGOL GYNRADD
LLANILLTUD FAERDREF

Cynnwys

Cyflwyniad

Gwybodaeth a chyngor – Manylion cyswllt 4

Rhan 1:

Addysg Gynradd ac Uwchradd – Trefniadau Derbyn Cyffredin

1.1 Dewis ysgol 5

1.2 Cyflwyno cais am le 6

1.3 Sut mae llefydd yn cael eu dyrannu 8

Rhan 2:

Cyfnodau Byd Addysg

2.1 Ysgolion Cynaledig 10

2.2 Addysg Gynradd 12

2.3 Derbyn i Ysgolion Uwchradd 13

Rhan 3:

Gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â llefydd mewn addysg 14

Rhan 4:

Derbyn i Ysgolion – Dyddiadau Allweddol 16

Rhan 5:

Apelio 18

Rhan 6:

Gwybodaeth Gyffredinol i Rieni / Warcheidwaid 20

Rhan 7:

Rhestr o Ysgolion Cynradd / Uwchradd Cysylltiedig 24

Rhan 8:

Anghenion Dysgu Ychwanegol 26

Rhan 9:

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg 28

9.1 Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau ynghylch Teithiau Disgyblion/Myfyrwyr 28

Rhan 10:

Polisiau Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig a Rheoledig
(o dan adain yr eglwysi) 38

Rhestr o Ysgolion a Lleoliadau Meithrin sy'n annibynnol o'r Cyngor

Manylion cyswllt a gwybodaeth gyffredinol 48

Cyflwyniad

Annwyl Rieni/Warcheidwaid

Mae dewis ysgol sydd orau i'ch plentyn yn un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch chi'n ei wneud. Yn y llyfryn yma, fe welwch chi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ynglŷn ag amrywiaeth o ysgolion y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer derbyn eich plentyn i'r ysgol.

Cyn i chi benderfynu pa ysgol yw'r un gywir ar gyfer eich plentyn, dylech chi ddarllen y llyfryn yma'n ofalus ac ystyried a ydych chi eisiau i'ch plentyn gael ei addysg/haddysg drwy'r Gymraeg, drwy'r Saesneg neu mewn un o'r Ysgolion Ffydd. Mae modd gweld rhagor o wybodaeth ynglŷn â manteision addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn ein llyfryn 'Bod yn Ddwyieithog' sydd ar gael ar-lein. Ewch i www.rctcbc.gov.uk/Bodynddwyieithog

Bydd gan rai plant anghenion dysgu ychwanegol, a bydd angen darpariaeth arbenigol, o bosibl, mewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae trefniadau gwahanol yn eu lle ar gyfer cyflwyno cais ar gyfer y mathau gwahanol o ysgolion a'r oeddrannau gwahanol. Mae'r amserlenni dyrannu yn amrywio hefyd, yn ogystal â phryd mae'r plentyn yn dechrau.

Os yw'r ysgolion yn llawn, mae arweiniad yn y llyfryn yma sy'n esbonio sut mae llefydd yn cael eu dyrannu a'r hyn y gallwch chi'i wneud os nad yw'ch plentyn wedi cael lle yn eich dewis ysgol.

Os byddwch chi eisiau gwybodaeth ychwanegol ar unrhyw adeg – neu gyngor ynglŷn â'r mater yma neu unrhyw fater arall a fo'n ymwneud â maes addysg, bydd swyddogion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn falch o fod o gymorth i chi.

Mae modd i chi gael rhagor o fanylion am ysgol benodol trwy gysylltu â Phennaeth yr ysgol honno'n uniongyrchol a gofyn am gopi o'r prospectws, neu drwy edrych ar wefan yr ysgol. Sylwch fod yr wybodaeth sydd yma mewn perthynas â threfniadau derbyn disgyblion i ysgolion Rhondda Cynon Taf rhwng mis Medi 2025 a mis Awst 2026 yn gywir adeg ei hargraffu. Er hynny, gall polisïau/rheoliadau newid o bryd i'w gilydd.

Mae pob polisi yn y llyfryn yma'n parhau gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys y dyletswyddau rhagweithiol. Mae Adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor ac i ysgolion fod yn rhagweithiol mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl ac i gymryd camau rhesymol i ddileu rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar wasanaethau. Mae'r ddyletswydd yn 'rhagweithiol' o ran bod rhaid pwysu a mesur beth ydy'r rhwystrau sy'n atal unigolion anabl rhag manteisio ar wasanaethau a chymryd rhan mewn profiadau ac ystyried camau gweithredu ymlaen llaw yn ei sgil.

Rydyn ni'n dymuno pob llwyddiant i'ch plentyn yn yr ysgol. A chithau'n rhiant/warcheidwad, mae modd i chi wneud llawer i gyflawni hyn drwy, er enghraifft, sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae pob ysgol yn gwerthfawrogi cymorth rhieni/gwarcheidwaid ac rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n manteisio ar y cyfle yma i ddysgu rhagor am ysgol eich plentyn a dod yn rhan o fywyd yr ysgol honno tra bydd eich plentyn yn ddisgybl yno. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Cofion cynnes,

Gaynor Davies

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation,
Abercynon CF45 4SN

Y Cyngorydd Rhys Lewis

Y Cyngorydd Rhys Lewis

Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg,
Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg

Medi 2024

Gwybodaeth a chyngor – Manylion Cyswllt

Mae swyddfa'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion yng Nghanolfan Menter y Cymoedd, Abercynon. Mae'r garfan ar gael bob amser i roi cyngor a chymorth ynglŷn â materion derbyn i'r ysgol.

Dyma'r manylion cyswllt:

**Adran Materion Derbyn Disgyblion | Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN**

☎ 01443 281111 ✉ DerbynDisgyblion@rctcbc.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth ynghyd a chopi o'r llyfryn Dechrau'r Ysgol yma ar gael hefyd ar wefan y Cyngor:
www.rctcbc.gov.uk/DerbynDisgyblion

1. Addysg Gynradd ac Uwchradd – Trefniadau Derbyn Cyffredinol 2025-2026

1.1 Dewis Ysgol

- 1.1.1 'Awdurdod Derbyn' sy'n rheoli ac yn gweinyddu materion derbyn plant i ysgolion. Yn achos ysgolion cymuned, Cyngor Rhondda Cynon Taf (yr Awdurdod) yw'r Awdurdod Derbyn cydnabyddedig. O ran yr ysgolion gwirfoddol cymorthedig (o dan adain yr eglwysi), cyrff llywodraethu'r ysgolion eglwysig unigol yw'r Awdurdod Derbyn.
- 1.1.2 Mae gan bob ysgol ardal benodol mae'n ei gwasanaethu, sef ei 'dalgyllch'. Mae'r rhan fwyaf o rieni/warcheidwaid yn dewis anfon eu plant i'w hysgol 'leol' o fewn y dalgyllch yma, ond maen nhw â'r hawl i fynegi barn ynglŷn â'r ysgol sydd orau ganddyn nhw.
- 1.1.3 Bydd polisi derbyn plant yr Awdurdod yn pennu a fydd modd cynnig lle i'r plentyn yn y dewis ysgol ai peidio.
- 1.1.4 Mae'r broses cyflwyno cais i ysgolion cyfrwng Cymraeg yr un peth yn union ond yn aml, mae'r dalgyllch yn fwy eang. I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Cyfrwng Cymraeg, darllenwch ein llyfryn 'Bod yn ddwyieithog www.rctcbc.gov.uk/BodynDdwyeithog
- 1.1.5 Rhaid i rieni/warcheidwaid gyflwyno cais am le mewn ysgol ar y camau canlynol o addysg eu plant:
- i. **Derbyn i ddsbarth Cyn-feithrin (gweler y tabl ar Dudalen 10.)**
Y tymor sy'n dilyn pen-blwydd y plentyn yn 3 oed. Mae'r llefydd yn cael eu dyrannu gan ddibynnu ar argaeledd ac a oes llefydd dros ben yn nosbarth meithrin yr ysgol unigol. Dydyn nhw ddim ar gael yn gyffredinol.
 - ii. **Trefniadau derbyn i ddsbarth meithrin.**
Mae ysgolion yn cael eu hariannu am lefydd rhan-amser (o leiaf 15 awr yr wythnos) ar gyfer y tymor sy'n dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed, ac amser llawn ar gyfer y tymor sy'n dilyn pen-blwydd plentyn yn 4 oed. Penderfyniad y pennaeth fydd cynnig llefydd yn y bore neu yn y prynhawn.
 - iii. **Adeg derbyn i ddsbarth derbyn.**
 - iv. **Adeg trosglwyddo o ysgol babanod i ysgol iau neu gynradd (blwyddyn 2 i flwyddyn 3 yn unig).**
Does dim angen i blant sydd eisoes yn mynychu ysgol gynradd wneud cais am le mewn ysgol iau. Dim ond plant sy'n mynychu Ysgolion Babanod sydd angen gwneud cais am le mewn dosbarth Blwyddyn 3.
 - v. **Adeg trosglwyddo o ysgol iau neu gynradd i ysgol uwchradd.**
Does dim angen i blant sydd eisoes yn mynychu ysgol bob oed gyflwyno cais am le mewn ysgol uwchradd, oni bai eu bod nhw'n penderfynu mynd i ysgol arall.
 - vi. **Unrhyw adeg y bydd y rhieni/gwarcheidwaid yn dymuno trosglwyddo'u plentyn o un ysgol i ysgol arall.**
- Mae'r amserlen derbyn ar gyfer pob un o'r uchod i'w gweld ar dudalen 17.
- 1.1.6 Ar gyfer derbyn i ysgolion gwirfoddol cymorthedig (ysgolion eglwysig), gweler tudalennau 36-44.
- 1.1.7 Mae enw'r ysgol uwchradd y bydd disgyblion yr ysgolion iau/cynradd yn trosglwyddo iddi fel arfer wedi'i nodi ar dudalennau 22-23.

1.2 Cyflwyno cais am le

1.2.1 Mae gan rieni/warcheidwaid yr hawl i ddatgan eu dewis ysgol ar gyfer eu plentyn/plant. Yn achos y disgyblion hynny a fydd yn dechrau'r ysgol ym Medi 2025, rhaid i'w rhieni/gwarcheidwaid lenwi ffurflen gais. Ewch i dudalen 17 i weld y dyddiadau cau ar gyfer y ceisiadau yma.

1.2.2 Mae modd i rieni'r disgyblion hynny a fydd yn dechrau yn y dosbarth meithrin/derbyn, yn trosglwyddo o ysgol babanod i ysgol iau/gynradd neu o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ym mis Medi 2025 wneud cais am le ar-lein.

Mae cyflwyno cais ar-lein yn syml.

i. Ewch i: oneonline.rctcbc.gov.uk

ii. Cofrestrwch gyda chyfeiriad e-bost dilys.

iii. Dilynwch gyfarwyddiadau y tudalennau gwe sy'n sôn am gyflwyno cais ar-lein.

Os nad oes gyda chi'ch cyfrifiadur eich hun, mae modd defnyddio'r rhyngwrdd am ddim yn unrhyw un o lyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf. Fel arall, mae modd i chi gael gafael ar ffurflen gais bapur drwy ffonio'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion ar 01443 281111.

1.2.3 Dim ond ffurflenni cais sy'n cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau y byddwn ni'n eu hystyried ar gyfer y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd.

1.2.4 Bydd croeso i rieni/warcheidwaid ffonio penaethiaid i drafod eu dewisiadau a/neu i drefnu ymweld ag ysgolion cyn gwneud penderfyniad terfynol. Cofiwch na fydd gan bennaeth ysgol gymuned yr hawl i gynnig neu addo lle yn yr ysgol.

1.2.5 Rhaid i'r wybodaeth byddwch chi'n ei nodi ar eich cais fod yn gywir. Efallai bydd adegau pan fyddwn ni'n gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth i ategu'r wybodaeth a nodoch chi ar y ffurflen.

1.2.6 Cyfrifoldeb Rhiant / Cyfrifoldeb wedi'i rannu

Y rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn unig a all wneud cais, a bydd angen gwneud datganiad ynglŷn â hynny yn rhan o'r broses. Fel arfer, y disgwyl yw bod y person yma'n byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn a chyfeirir at y person yma fel rhiant at ddibenion derbyn disgyblion.

Lle mae cyfrifoldeb dros blentyn yn cael ei rannu'n gyfartal, bydd y Cyngor yn gofyn i'r rhieni benderfynu pa riant sy'n mynd i gyflwyno'r cais. Os na all y rhieni gytuno, a does dim un ohonyn nhw wedi cael gorchymyn llys sy'n datgan pwy ddylai gyflwyno'r cais, bydd y Cyngor yn derbyn cais gan y rhiant sy'n derbyn Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn. Does dim modd i'r Cyngor ymyrryd mewn anghydfodau rhwng rhieni o ran ceisiadau am lefydd mewn ysgolion, a bydd yn gofyn bod y rhain yn cael eu datrys yn breifat.

1.2.7 Llysriant

Os bydd cais yn dod i law gan lysriant, bydd angen iddo/iddi gyflwyno gorchymyn sy'n cadarnhau cyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Bydd angen dogfennau o'r fath i barhau â phrosesu'r cais.

1.2.8 Tystiolaeth o'ch cyfeiriad

Yr unig dystiolaeth sy'n cael ei derbyn fel prawf dogfennol o gyfeiriad yw – datganiad Treth y Cyngor; llythyr cadarnhau Budd-dal Plant; bil nwy, dŵr neu drydan diweddar. Rhaid darparu'r dogfennau gwreiddiol (byddwn ni'n eu dychwelyd i chi o gael cais i wneud hynny). Gall y dystiolaeth gael ei chroeswiro a'i chadarnhau yn erbyn gwybodaeth arall amdanoch chi mae adrannau eraill yr Awdurdod yn ei chadw.

Os bydd cyfeiriad parhaol y plentyn yn newid yn dilyn cyflwyno cais, mae'n hanfodol eich bod chi'n rhoi gwybod i'r Awdurdod Derbyn mewn ysgrifen cyn gynted â phosibl.

I'r rhieni/gwarcheidwaid sydd wedi symud tŷ o fewn y chwe mis diwethaf, bydd angen tystiolaeth ddogfennol arall, sef:

i. Trwydded yrru gyda'ch llun arni sy'n cynnwys y cyfeiriad newydd. Rhaid dod â hon eich hun i Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, os bydd gofyn am hyn.

ii. Os ydych chi wedi symud tŷ o ganlyniad i amgylchiadau domestig e.e. Ysgaru neu Wahanu Cyfreithlon, efallai bydd gofyn i chi gyflwyno copïau o ddogfennau'r Llys/Cyfreithiwr.

1.2.9 Tynnu lle mewn ysgol yn ôl

Os ydyn ni'n cynnig lle mewn ysgol ac yna'n darganfod fod y cynnig wedi'i wneud ar sail gwybodaeth sy'n dwyllodrus neu'n gamarweiniol e.e. honiad ffug o fyw mewn cyfeiriad arbennig, dyddiad geni ffug, bydd y lle sydd wedi'i gynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Gall hyd yn oed gael ei dynnu'n ôl ar ôl i'ch plentyn ddechrau yn yr ysgol.

1.2.10 **Newid dewis**

Rhaid rhoi gwybod am unrhyw newid o ran dewis ysgol mewn ysgrifen i'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion. Bydd unrhyw ddewis sydd wedi'i newid ar ôl y dyddiad cau cyhoeddedig yn arwain at y cais yn cael ei drin fel cais hwyr.

1.2.11 **Deilliant ceisiadau**

Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu hysbysu mewn ysgrifen o ddeilliant eu cais erbyn y dyddiadau sydd wedi'u nodi ar dudalen 17.

1.2.12 **Apelio**

Mae rhan 5 yn nodi'r broses apelio sydd raid i rieni/warcheidwaid ei dilyn os ydyn nhw'n dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad.

1.2.13 **Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd**

Rhaid i bob ysgol gynaliedig dderbyn disgyblion (yn ystod addysg orfodol) hyd at ei Nifer Derbyn (ND) sydd wedi'i nodi ar y Rhestr o Ysgolion ar dudalen 47 ymlaen.

Bydd gan yr ysgolion hynny sy'n derbyn disgyblion o ysgolion babanod cysylltiedig ddau rif ND. Dydy rheoliadau Nifer Derbyn ddim yn berthnasol yn achos ysgolion meithrin, ysgolion arbennig neu unedau atgyfeirio disgyblion.

1.2.14 **Cyn i'ch plentyn ddechrau mewn ysgol newydd, rhaid i chi ddangos un o'r canlynol i'r ysgol fel tystiolaeth o'i ddyddiad/dyddaid geni:**

copi gwreiddiol o dystysgrif geni'ch plentyn, ei basbort/phasport neu ei gerdyn/cherdyn adnabod yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

1.2.15 **Polisi'r Awdurdod ynglŷn â cheisiadau sydd ddim yn dilyn yr oedran cronolegol.**

Mae Rhondda Cynon Taf yn gweithredu polisi ar wahân ar geisiadau sydd ddim yn dilyn yr oedran cronolegol. Os yw rhiant yn gofyn i'w blentyn/phlentyn gael ei roi/rhoi mewn grŵp blwyddyn sydd y tu allan i'w oedran/hoedran cronolegol, ac mae'r cais yn cael ei gyflwyno ar yr un pryd â'r cais am le, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried pob cais yn seiliedig ar yr amgylchiadau unigol.

Er nad oes unrhyw rwystr statudol i blant gael eu haddysgu y tu allan i'w grŵp blwyddyn cronolegol, does dim dyletswydd i gytuno i gais o'r fath a does dim modd i riant/gwarcheidwad fynnu bod eu plentyn yn cael ei addysgu y tu allan i'w grŵp oedran arferol.

1.2.16 **Awgrymiadau.**

1. **Cyflwynwch gais ar amser**

Peidiwch â chyflwyno cais am le mewn ysgol yn hwyr! Mae'n hollbwysig eich bod chi'n cyflwyno cais ar amser er mwyn sicrhau bod cais eich plentyn yn cael ei ystyried ar gyfer y rownd gyntaf o geisiadau.

2. **Cyflwynwch gais ar-lein**

Gofynnwn ichi gyflwyno cais ar-lein (ac eithrio'r rheiny sy'n newid ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd – yn yr achos yma mae angen gofyn am ffurflen i'w llenwi). Mae cyflwyno cais ar-lein yn syml ac yn effeithlon.

Trwy gyflwyno cais ar-lein byddwn ni'n rhoi gwybod ichi pan fyddwn ni wedi derbyn eich cais. Byddwch chi hefyd yn cael gwybod canlyniad eich cais dros e-bost. Mae modd i chi dderbyn neu wrthod y lle ar y system ar-lein.

3. **Gwybod pa ysgolion sydd yn eich ardal chi**

Edrychwch i weld pa ysgolion sydd yn eich ardal chi. www.rctcbc.gov.uk/chwilioamysgol

Mae modd i chi ymweld â gwefannau ysgolion, darllen prospectws ysgolion a darllen adroddiadau Estyn cyn penderfynu ar ba ysgol i wneud cais amdani.

Mae modd i chi ofyn i ymweld ag ysgol trwy gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgol a gwneud apwyntiad.

4. **Nodwch fwy nag un dewis ysgol ar eich cais**

Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael mynychu eu hysgol dewis cyntaf, fodd bynnag, mewn rhai achosion dydy hyn ddim yn bosib os ydyn ni'n derbyn mwy o geisiadau nag sydd yno o lefydd. Yn yr achos yma byddwn ni'n troi at ein meini prawf gordanystrifio.

Oherwydd hyn rydyn ni'n argymhell yn gryf eich bod chi'n nodi ail a thrydydd dewis ar eich cais. Nodwch na fydd gwneud hyn yn effeithio ar gyfle eich plentyn i dderbyn cynnig i'ch dewis cyntaf. Mae nodi ail a thrydydd dewis yn golygu os ydyn ni mewn sefyllfa ble nad yw'n bosib cynnig lle ichi yn eich dewis cyntaf, mae modd i ni fwrw ati i edrych ar eich ail a thrydydd dewis.

5. **Derbyniwch neu gwrthodwch unrhyw leoedd sy'n cael eu cynnig**

Pan fyddwch chi'n derbyn cynnig lle mewn ysgol yn RhCT, mae'n hollbwysig eich bod yn rhoi gwybod inni os ydych chi'n dymuno derbyn y lle cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae'r un mor bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod inni os ydych chi'n dymuno gwrthod y cynnig fel bod modd inni gynnig y lle i blentyn arall

1.3 Sut mae llefydd yn cael eu dyrannu

- 1.3.1 Os yw nifer y ceisiadau am le yn is na Nifer Derbyn yr ysgol, bydd pob cais ar gyfer yr ysgol honno'n cael ei ganiatáu.
- 1.3.2 Does dim hawl i gadw lleoedd ar gyfer plant o'r dalgylch oni bai'u bod nhw'n blant o oed y dosbarth derbyn a bod eu rhieni wedi cyflwyno cais am ohirio mynediad i'w plant hyd nes dyddiad yn ddiweddarach yn ystod yr un flwyddyn ysgol.
- 1.3.3 Os yw nifer y ceisiadau sy'n cael eu derbyn uwchlaw'r Nifer Derbyn, byddwn ni'n cymhwysu'r meini prawf canlynol ar gyfer ysgolion sy'n llawn. Yn nhrefn blaenoriaeth, dyma'r meini prawf ar gyfer dyrannu'r lleoedd sydd ar gael:
- 1.3.4 Meini prawf ar gyfer ysgolion sy'n llawn
- **Categori Blaenoriaeth 1:**
Plant dan adain gofal yr Awdurdod (mewn gofal cyhoeddus) a phlant sydd wedi bod dan adain gofal yr Awdurdod yn y gorffennol.
 - **Categori Blaenoriaeth 2:**
Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno ac sy'n byw yn yr un cartref pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol ym Medi 2025.
 - **Categori Blaenoriaeth 3:**
Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond sydd heb frawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno.
 - **Categori Blaenoriaeth 4:**
Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n fynychu'r ysgol honno'n barod ac sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol ym Medi 2025.
 - **Categori Blaenoriaeth 5:**
Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol sydd heb frawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno.
Er mwyn bod yn gwbl sicr, mae'r gair 'cartref' uchod a'r 'camau penderfynu' isod yn cyfeirio at y cyfeiriad y mae'r plentyn yn byw ynddo.
- 1.3.5 Fyddwn ni ddim yn ystyried trefniadau gofal/carco plant na chyfeiriad gweithle'r rhiant wrth gymhwyso'r meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion.
- 1.3.6 **Camau penderfynu:**
Bydd plant yn cael eu derbyn i'r ysgol hyd at y Nifer Derbyn, yn nhrefn y blaenoriaethau uchod. Os nad oes modd cynnig lle i bob un o'r ceiswyr o fewn unrhyw un o'r categorïau sydd wedi'u rhestru uchod, byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Bydd yr Awdurdod yn mesur y pellter yn ôl y daith ddiogel fyrraf rhwng y cartref a'r gât ysgol agosaf sy'n agor. Er mwyn bod yn gwbl sicr, mewn ardaloedd lle nad oes taith cerdded ddiogel yn ôl yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn mesur y pellter yn ôl y daith gyrru fwyaf byr rhwng drws blaen y cartref a'r gât agosaf sy'n agor yn yr ysgol. Er tegwch i bawb sy'n cyflwyno ceisiadau, byddwn ni'n defnyddio meddalwedd Mapinfo yn unig i fesur y pellter. Fyddwn ni ddim yn rhoi ystyriaeth i unrhyw system arall.

1.3.7 **Brodyr a chwiorydd**

Bydd plant yn cael eu cyfrif yn frodyr neu'n chwiorydd os ydyn nhw: yn hanner frodyr/chwiorydd, brodyr/chwiorydd llawn, llysfrodyr/llyschwiorydd, brodyr neu chwiorydd sydd wedi'u mabwysiadu neu'u maethu sy'n byw'n barhaol ar yr un aelwyd.

Sylwch na fydd cefndryd, neiaint a nithoedd ddim yn cael eu hystyried yn frodyr neu'n chwiorydd. Mewn perthynas ag ysgolion uwchradd, rhaid i frodyr neu chwiorydd fod ym Ml. 7 – 11 yr ysgol berthnasol ym mis Medi 2025. Fydd brodyr neu chwiorydd sydd mewn chweched dosbarth ysgol gyfun ym mis Medi 2025 ddim yn cael eu hystyried ar gyfer derbyn plant ifancach.

1.3.8 **Gefeilliaid neu Dripledi ac ati**

O gymhwyso'r meini prawf yma a bod y plentyn olaf sydd i'w dderbyn yn efail / un o dri ac ati, bydd yr Awdurdod yn derbyn y brawd/brodyr/chwaer/chwiorydd arall/eraill yn ogystal.

1.3.9 **Plant milwyr gwledydd Prydain**

O dderbyn llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) neu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) sy'n nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o gyfeiriad newydd yn gefn i'r cais, bydd plant milwyr gwledydd Prydain yn cael eu cyfrif yn blant sy'n byw yn y dalgylch.

1.3.10 **Amrywiadau ar y Niferoedd Derbyn**

Mewn achosion lle mae'r Awdurdod yn y broses o geisio amrywio'r Nifer Derbyn i ysgol oherwydd newidiadau yn yr adeiladau sydd ar gael, mae'r nifer arfaethedig wedi'i gofnodi dan enw'r ysgol berthnasol.

1.3.11 **Ceisiadau hwyr**

Bydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau a chyn y dyddiad cynnig yn cael eu hystyried yn geisiadau hwyr. Bydd y rhain dim ond yn cael eu derbyn gan yr Awdurdod Derbyn os bydd rheswm dilys yn cael ei roi e.e. os yw rhiant sengl wedi bod yn sâl am gyfnod hir neu os yw teulu newydd symud i'r ardal.

Bydd Ceisiadau Hwyr sy'n cael eu derbyn gan yr Awdurdod Derbyn yn cael eu prosesu ar ôl yr holl geisiadau a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau waeth beth fo'r rheswm dros hwyrni'r cais. Byddan nhw hefyd yn destun yr un meini prawf. Mae'n bosibl felly bydd ysgol o ddewis y rheiny sy'n anfon ceisiadau hwyr eisoes yn llawn.

1.3.12 **Rhestrau aros**

Yn dilyn derbyn disgyblion yn ôl y drefn derbyn disgyblion arferol, bydd enwau unrhyw ddisgyblion sydd heb eu derbyn yn achos ysgolion sy'n llawn, yn mynd ar y rhestr aros. Caiff y rhestr ei chadw tan 30 Medi (yn unol â'r argymhellion hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Derbyn Disgyblion). Wedi hynny, bydd rhaid i rieni/warcheidwaid gyflwyno cais o'r newydd (drwy lenwi ffurflen gais arall) a/neu ddarparu cais ysgrifenedig i aros ar y rhestr aros.

Bydd llefydd yn cael eu dyrannu i ddisgyblion sydd ar restr aros yn ôl y meini prawf ar gyfer ysgolion sydd eisoes yn llawn ac nid yn ôl hyd y cyfnod maen nhw wedi bod ar y rhestr aros.

1.3.13 **Derbyn Disgyblion i Chweched Dosbarth**

Ar hyn o bryd, yr ysgolion yn unigol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion chweched dosbarth i ysgolion cymuned. Am hynny, mae gofyn cyflwyno unrhyw geisiadau o'r fath ar gyfer sylw'r ysgol yn uniongyrchol.

Yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am gyhoeddi polisiau ar dderbyn disgyblion i chweched dosbarth yn unol â'r meini prawf ar gyfer derbyn. Mae gan yr Awdurdod bolisi mynediad agored i chweched dosbarth.

2. Cyfnodau Byd Addysg – Ysgolion Cynaledig

2.1 Addysg Cyn-feithrin/Feithrin

Mae'r Cyngor yn adolygu ei weithdrefnau derbyn disgyblion ar gyfer addysg cyn-feithrin a meithrin anstatudol yn barhaus ac mae'n cadw'r hawl i'w diwygio.

2.1.1 Addysg Cyn-feithrin

Mae addysg cyn-feithrin ran-amser ar gael i blant yn y tymor ar ôl eu pen-blwyddi'n 3 oed. Bydd modd i rieni gyflwyno cais ar-lein ym mis Medi am le cyn-feithrin sy'n dechrau ym mis Ionawr (y tymor ar ôl i'w plentyn droi'n 3 oed), ac ym mis Ionawr ar gyfer mis Ebrill yn yr un modd.

2.1.2 Addysg Feithrin

Mae Addysg Feithrin ran-amser ar gael o fis Medi'r flwyddyn academaidd mae'r plentyn yn troi'n 4 oed. Mae llefydd amser llawn yn cael eu darparu ar gyfer plant sydd wedi cael eu pen-blwyddi'n 4 oed.

Cohort Derbyn	Oedran Disgyblion
Derbyn disgyblion cyn-feithrin o fis Ionawr 2026 ymlaen	Plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 3 oed rhwng: 1 Medi 2025 a 31 Rhagfyr 2025
Derbyn disgyblion cyn-feithrin o fis Ebrill 2026 ymlaen	Plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 3 oed rhwng: 1 Ionawr 2026 a 31 Mawrth 2026 (Os bydd eich plentyn yn troi'n 3 oed ar ôl 31 Mawrth 2026, y cynharaf y bydd modd iddo ddechrau yn yr ysgol fydd mis Medi 2026)

2.1.2.1 Nifer Derbyn ar gyfer Cyn-feithrin/Meithrin

Mae un Nifer Derbyn ar gyfer Cyn-feithrin/Meithrin sy'n cael ei phennu gan yr Awdurdod. Pan fydd y ddarpariaeth feithrin yn llawn, fydd dim modd derbyn disgyblion ychwanegol.

Mae llefydd cyn-feithrin yn cael eu dyrannu yn amodol ar argaeledd a does dim modd eu gwarantu mewn unrhyw ysgol / Darparwr Addysg Cofrestredig.

Fydd dim modd i ni dderbyn plentyn cyn-feithrin i unrhyw ysgol ar ôl y dydd Gwener yn dilyn Hanner Tymor mis Mai.

2.1.2.2 Mae addysg feithrin yn cael ei darparu ledled Rhondda Cynon Taf drwy ysgolion cynaledig a Darparwyr Addysg Cofrestredig sydd ddim wedi'u cynnal. Mae Estyn yn arolygu'r ysgolion a'r darparwyr yma yn rheolaidd.

I ddechrau, bydd llefydd cyn-feithrin a meithrin dim ond ar gael i rieni/warcheidwaid sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac sy'n talu treth y Cyngor yn y Sir honno. Bydd cyfle i drigolion sy'n byw y tu allan i Ronda Cynon Taf gyflwyno cais am le cyn-feithrin a meithrin os oes llefydd ar ôl.

2.1.2.3 **Addysg cyn-feithrin / feithrin cyfrwng Cymraeg**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar yn natblygiad sgiliau Cymraeg plant. Felly, os addysg Gymraeg sy'n well gyda chi, darllenwch yr adran yma'n ofalus.

2.1.2.4 **Cyflwyno cais**

Caiff rhieni/gwarcheidwaid gyflwyno cais am le cyn-feithrin mewn ysgol neu Ddarpariaeth Addysgol Gofrestredig ar-lein: <https://schooladmissions.rhondda-cynon-taff.gov.uk> (Dewiswch 'Cymraeg' ar ochr dde brig y dudalen).

Mae manylion y darparwyr i'w gweld ar dudalennau 46 a 47. Mae modd i chi hefyd ffonio llinell gymorth y gwasanaeth Gwybodaeth i'r Teulu yn rhad ac am ddim ar 0800 180 4151 (neu 0300 o ffôn symudol) 111 4151 am ragor o wybodaeth.

Fydd darpariaeth ysgolion sydd ddim wedi'u cynnal ddim yn cael eu hariannu ar draws siroedd. Mae dyddiadau ariannu darparwyr addysg sydd ddim wedi'u cynnal yr un peth â dyddiadau derbyn yr ysgolion eraill.

2.1.2.5 **Dyrannu lleoedd**

Bydd y penderfyniad i ddyrannu lle i'ch plentyn yn cael ei wneud yn unol â meini prawf cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer Derbyn Disgyblion, ac yn unol â disgwyliadau adran 1.3 Llywodraeth Cymru.

Rhaid i gais ffurfiol gael ei gyflwyno ar gyfer trosglwyddo i ddosbarth meithrin o ddarpariaeth cyn-feithrin ar yr adeg briodol. O bryd i'w gilydd, efallai bydd sefyllfaoedd yn codi pan fydd hi ddim yn bosibl trosglwyddo disgyblion oherwydd bod dim digon o lefydd.

Fydd dim hawl ddi-gwestiwn gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i naill ai dosbarth cyn-feithrin neu ddosbarth meithrin i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol.

2.1.2.6 **Gofal Plant yn RhCT**

Mae Carfan Gofal Plant Rhondda Cynon Taf yn cynorthwyo'r sector gofal plant i sicrhau bod digon o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Saesneg a Chymraeg i fodloni anghenion rhieni a gwarcheidwaid. Mae'r Garfan Gofal Plant yn cynnig cyrsiau hyfforddi i ddarparwyr gofal plant, grantiau cychwynnol, cyngor a chymorth. Mae hi'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill y Cyngor, megis Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd Cydnerth, Chwarae Mynediad Agored a Mynediad a Chynhwysiant.

Mae'r garfan hefyd yn gyfrifol am weithredu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn RhCT. Mae hyn yn cynnig 30 awr yr wythnos o addysg feithrin Dysgu Sylfaen a gofal plant ychwanegol wedi'u hariannu i'r mwyafrif o rieni sy'n gweithio 48 wythnos y flwyddyn ac sydd â phlant 3 a 4 oed.

Mae rhagor o wybodaeth am y Garfan Gofal Plant a'r Cynnig Gofal Plant ar gael yma: www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant

2.2 Addysg Gynradd

2.2.1 Addysg Gynradd

Yn unol ag adran 8 o Ddeddf Addysg 1996, mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol yn ystod y tymor sy'n dilyn ei ben-blwydd/phen-blwydd yn 5 oed. Mae'r dyddiadau yma (1 Medi, 1 Ionawr ac 1 Ebrill) yn unol â Gorchymyn Addysg (Oedran Dechrau Ysgol Gorfodol) 1998 (Offeryn Statudol 1998 Rhif 1607).

Felly, bydd plentyn sy'n troi'n 5 oed rhwng:

- 1 Ebrill – 31 Awst o oedran ysgol gorfodol ar 1 Medi
- 1 Medi – 31 Rhagfyr o oedran ysgol gorfodol ar 1 Ionawr
- 1 Ionawr – 31 Mawrth o oedran ysgol gorfodol ar 1 Ebrill
(e.e. fyddai plentyn a gafodd ei eni/geni ar 1 Ionawr ddim o oedran ysgol gorfodol tan 1 Ebrill).

2.2.2 Trefniadau Derbyn i Ysgolion Babanod neu Adrannau Babanod mewn Ysgolion Cynradd

Fydd dim hawl ddi-gwestiwn gan ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgol fabanod i barhau â'u haddysg yn yr ysgol iau/gynradd sy'n gwasanaethu'r un ardal. Rhaid cyflwyno cais ffurfiol i drosglwyddo i'r ysgol iau/gynradd ar yr adeg briodol.

O bryd i'w gilydd, ac yn achos ysgolion llawn, efallai bydd sefyllfaoedd yn codi pan fydd hi ddim yn bosibl trosglwyddo disgyblion o fewn yr un ysgol iau/gynradd. Yn yr achosion yma byddwn ni'n ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid a chynnig lle mewn ysgol arall.

2.2.3 Trosglwyddo i Ysgolion neu Adrannau Iau o fewn Ysgolion Cynradd

Bydd plant yn cael eu trosglwyddo o ysgolion babanod i ysgolion iau neu adrannau iau mewn ysgolion cynradd ar ddiwrnod cyntaf tymor yr hydref (ar ddyddiad penodol ym mis Medi) yn dilyn eu pen-blwydd yn 7 oed.

Does dim angen i blant sy'n mynychu ysgol gynradd wneud cais am le mewn ysgol iau.

2.2.4 Newid Ysgol: Addysg Gynradd

Nid ar chwarae bach mae newid ysgol yn ystod addysg gynradd. Os yw'r teulu'n symud tŷ, gall penderfyniad o'r fath fod yn angenrheidiol.

Os byddwch chi'n penderfynu trosglwyddo'ch plentyn o un ysgol i un arall cysylltwch â Phennaeth yr ysgol bresennol yn y lle cyntaf i roi gwybod iddo fe / iddi hi am eich penderfyniad. Os byddwch chi eisieu parhau â'r trefniadau trosglwyddo, cysylltwch â'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion am gyngor wrth gyflwyno'ch cais i'r ysgol newydd.

Bydd ceisiadau ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn mewn ysgol yn cael eu dyfarnu yn wyneb y Nifer Derbyn perthnasol ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw, a nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol ar y cyfan.

Cofiwch ei bod hi'n bosibl y bydd mwy nag un grŵp oedran yn y dosbarthiadau, a chyfrifoldeb (awdurdod) y Pennaeth yw gosod eich plentyn chi yn y dosbarth mwyaf addas.

Dylai disgyblion barhau i fynychu eu hysgol bresennol hyd nes i leoliad ysgol gael ei drefnu.

Os nad yw plentyn yn dechrau yn yr ysgol o fewn pedair wythnos, bydd yn colli ei le yn yr ysgol a bydd raid i'w riant wneud cais arall.

Mae modd i ddisgyblion drosglwyddo o ysgol Saesneg i ysgol Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno hynny. Mae'r cymorth yma ar gael i ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 2 i 6 ac yn galluogi disgyblion i ddechrau ar eu taith o ran bod yn ddwyieithog. Os yw eich plentyn/plant ym Mlwyddyn 1 neu'n iau, ac yn dymuno trosglwyddo o ysgol Saesneg i ysgol Gymraeg, fydd dim angen cymorth ychwanegol arno fe/arnyn nhw yn hyn o beth. Mae modd i'r Garfan Derbyn Disgyblion helpu gyda'r broses drosglwyddo.

Mae rhagor o wybodaeth am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg yma: :

www.rctcbc.gov.uk/BodynDdwyieithog

2.3 Derbyn i Ysgolion Uwchradd

2.3.1 Addysg Uwchradd

2.3.1.1 Bydd plant yn trosglwyddo o ysgol gynradd (iau) i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed. Bydd gofyn i rieni/warcheidwaid lenwi ffurflen gais gan nodi eu dewis o ran pa ysgol maen nhw am i'w plentyn/plant ei mynychu. Rhaid i hyn gael ei wneud pan fydd y plentyn/plant ym mlwyddyn 6.

2.3.1.2 Os yw'ch plentyn wedi'i gofrestru/chofrestru mewn ysgol gynradd gysylltiol, dydy hyn ddim yn gwarantu lle iddo/iddi, neu roi hawl iddo/iddi gael lle, mewn ysgol uwchradd benodol.

2.3.1.3 Does dim angen i blant sydd eisoes yn mynychu ysgol bob oed gyflwyno cais am le mewn ysgol uwchradd oherwydd eu bod nhw'n cael eu trosglwyddo'n awtomatig. Bydd modd i rieni sy'n dymuno cyflwyno cais am le mewn ysgol gyfun amgen, wneud hynny drwy lenwi ffurflen gais ysgolion cyfun.

2.3.2 Newid Ysgol: Addysg Uwchradd

2.3.2.1 Nid ar chwarae bach mae penderfynu newid ysgol uwchradd o safbwynt eich plentyn/plant. Os yw'r teulu'n symud tŷ, gall penderfyniad o'r fath fod yn angenrheidiol ac efallai y byddwch chi am gysylltu â'ch ysgol leol neu'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion (gweler tud. 4) am gyngor ynglŷn â'r mater yma.

2.3.2.2 Os byddwch chi'n penderfynu trosglwyddo'ch plentyn o un ysgol uwchradd i un arall, cysylltwch â Phennaeth yr ysgol bresennol yn y lle cyntaf er mwyn trafod unrhyw broblemau. Os ydych chi'n awyddus i barhau â'r trefniadau yma o hyd, cysylltwch â'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion i gael cyngor ynglŷn â chyflwyno'ch cais i'r ysgol newydd.

2.3.2.3 Wrth ystyried eich cais i drosglwyddo, bydd yr Awdurdod yn adolygu'r Nifer Derbyn a nifer y disgyblion yn y grŵp blwyddyn sy'n berthnasol i'ch plentyn/plant. Os nad yw'r grŵp blwyddyn arbennig hwnnw wedi cyrraedd cyfyngiad derbyn cyhoeddedig yr ysgol, bydd eich plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol.

2.3.2.4 Dylai rhieni/gwarcheidwaid gofio, fodd bynnag, bod dewisiadau o ran y cwricwlwm a meysydd llafur byrddau arholi yn amrywio o ysgol i ysgol. Efallai, felly, na fydd modd bodloni dewisiadau'ch plentyn mewn ysgol wahanol. Gallai hynny achosi trafferthion i'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 10/11 sydd ar drothwy sefyll eu harholiadau TGAU a'r rheiny sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch / Uwch Gyfrannol.

2.3.2.5 Mae modd i ddisgyblion drosglwyddo o ysgol cyfrwng Saesneg i ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae rhagor o Cysylltwch â'r Garfan Materion Derbyn Disgyblion (gweler tudalen 4) am gyngor ar y mater yma.

3. Gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â llefydd mewn addysg

3.1 Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg

- 3.1.1 Bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau drosglwyddo i Ysgol Llanhari, os ydyn nhw'n byw yn y dalgylch.
- 3.1.2 Bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol-y-celyn (Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf o fis Medi 2025) drosglwyddo i Ysgol Garth Olwg, os ydyn nhw'n byw yn y dalgylch.

3.2 Trefniadau gydag Awdurdodau Lleol eraill

- 3.2.1 Mae trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardaloedd Awdurdodau cyfagos i fynychu ysgolion yn ardal Awdurdod Rhondda Cynon Taf y mae plant yr ardal wedi eu mynychu'n draddodiadol. Gall y trefniadau yma gael eu hadolygu bob blwyddyn.
- 3.2.2 Bydd disgyblion sy'n byw yn ardal ysgolion cynradd Brynnau, Dolau a Llanharan sy'n dymuno cael addysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg yn mynychu Ysgol Gyfun Pen-coed, os ydyn nhw'n dewis hynny.
- Bydd disgyblion sy'n byw yn y Gilfach-goch yn mynychu Ysgol Gynradd Abercerdin i gael addysg gynradd trwy gyfrwng y Saesneg, os dyna'u dewis.
- 3.2.3 Cafodd Ysgol Gyfun Rhydywaun ei hagor yn 1995 gan hen Gyngor Morgannwg Ganol gyda'r bwriad o ddarparu llefydd ar gyfer disgyblion o ardal Cwm Cynon a Bwrdeistref Merthyr Tudful. Mae'r trefniadau yma'n parhau hyd heddiw ac felly, mae'r dalgylch yn cynnwys ardal Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful i gyd yn ogystal â Chwm Cynon.

3.3 Dalgylchoedd

- 3.3.1 Gall dalgylchoedd newid yn dilyn adolygiad. Mae'n bosibl y bydd canlyniad yr adolygiadau'n golygu bod eisiau newid y cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd (fel sydd wedi'i nodi ar dudalennau 22 a 23). Mae dalgylchoedd yr ysgolion o fewn ffiniau Rhondda Cynon Taf yn dod i ben wrth ffin y fwrdeistref sirol mewn perthynas â'r ysgolion hynny sy'n agos at y ffin.
- 3.3.2 Cafodd dalgylchoedd Ysgolion Uwchradd y Pant a Bryncelynnog eu newid ar ôl 1 Medi 2015 yn dilyn ymgynghoriad. Bydd cais unrhyw blentyn sy'n byw yn yr ardaloedd a drosglwyddodd i ddalgylch Bryncelynnog ac sydd â brawd neu chwaer hŷn oedd yn mynychu'r Pant ym mis Gorffennaf 2015, ac sydd â brawd neu chwaer a fydd ym MI 7-11 (nid BI 12 a 13) ym mis Medi 2025, yn cael ei ystyried os yw'n dal i fyw yn nalgylch Y Pant, h.y. bydd ei gais/chais yn dod o fewn Categori 2 o feini prawf cyhoeddedig yr Awdurdod ac nid Categori 4.
- 3.3.3 Dyma ddalgylch chweched dosbarth Tonyrefail a chweched dosbarth Treorci:
- Tonyrefail:**
Dalgylch presennol Ysgol Gymuned Tonyrefail, dalgylch Ysgol Gymuned y Porth a dalgylch Ysgol Nant-gwyn.
- Treorci:**
Dalgylch presennol Ysgol Gyfun Treorci a'r myfyrwyr sy'n byw yn nalgylch presennol Ysgol Gymuned Glynrhedynog.
- 3.3.4 Mae dalgylch Ysgol Cyfrwng Cymraeg Penderyn (Medi 2021) yn cynnwys cymunedau Trenant a Phen-y-waun.
- 3.3.5 Agorodd yr adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun fis Medi 2021. Mae'r dalgylch wedi'i ymestyn i gynnwys cymuned Penderyn. Mae modd gweld y manylion ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r cyfleuster sydd wedi'i nodi ym mhwynt 3.3.18.

- 3.3.6 Cafodd adeiladau newydd ar gyfer Ysgolion Cynradd Penygawsi, Pont-y-clun a Llanilltud Faerdref eu hagor yn y Flwyddyn Academaidd 2024-2025.
- 3.3.7 Ers mis Medi 2023, ni fu unrhyw dderbyniadau Blwyddyn 12 i Ysgol Uwchradd Pontypridd (Ysgol Bro Taf o fis Medi 24) ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen (Ysgol Afon Wen o fis Medi 24). O ganlyniad i hyn, yr ysgol ddalgyrch ar gyfer derbyn disgyblion i Flwyddyn 12 ar gyfer y ddwy ysgol yma fydd Ysgol Gyfun Bryncelynnog.
- 3.3.8 Trosglwyddon ni holl ddalgyrch Maes-y-coed i ddalgyrch Ysgol Uwchradd Pontypridd (Ysgol Bro Taf) o fis Medi 2024.
- 3.3.9 Trosglwyddon ni holl ddalgyrch Coed-pen-maen i ddalgyrch Ysgol Uwchradd Pontypridd (Ysgol Bro Taf) o fis Medi 2024 hefyd.
- 3.3.10 Caeodd Ysgol Gynradd Heol-y-celyn, Ysgol Gynradd Cilfynydd, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ym mis Medi 2024.
- 3.3.11 Agorodd yr Ysgol Gynradd Gymraeg newydd (Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf) ym mis Medi 2024, ar hen safle Ysgol Heol-y-celyn.
- 3.3.12 Mae dalgyrch Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a dalgyrch ffrwd Gymraeg Heol-y-celyn wedi'u trosglwyddo i Ysgol Gynradd Gymraeg Arwel Taf.
- 3.3.13 Mae holl ddalgyrch Saesneg Heol-y-celyn yn rhan o ddalgyrch newydd Ysgol Afon Wen (Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen).
- 3.3.14 Caeodd Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd ill dwy ym mis Awst 2024.
- 3.3.15 Agorodd y ddwy ysgol pob oed (3-16) newydd, Ysgol Bro Taf ac Ysgol Afon Wen, ym mis Medi 2024 ar safleoedd blaenorol Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn y drefn honno. Cafodd y plant a fu'n mynychu'r ysgolion yma eu trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgolion newydd, gyda phlant Heol-y-celyn yn cael eu rhannu yn ôl eu ffrwd iaith, h.y. Saesneg i Ysgol Afon Wen a Chymraeg i Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf.
- 3.3.16 Does dim angen i blant sydd eisoes yn mynychu ysgol bob oed gyflwyno cais am le mewn ysgol uwchradd oherwydd eu bod nhw'n cael eu trosglwyddo'n awtomatig. Mae modd i rieni sy'n dymuno gwneud cais am le mewn ysgol Uwchradd arall wneud hynny drwy lenwi ffurflen gais Ysgol Uwchradd.
- 3.3.17 Symudodd Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn i leoliad newydd yn y Flwyddyn Academaidd 2024-2025 ond mae'r dalgyrch wedi aros yr un fath.
- 3.3.18 I'ch helpu chi i ddod o hyd i'ch ysgol dalgyrch, mae cyfleuster Dod o Hyd i Ysgol ar wefan y Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/derbyndisgyblion neu cysylltwch â'r:
Garfan Materion Derbyn Disgyblion
Canolfan Menter y Cymoedd
☎ 01443 281111
- 3.3.19 Mae gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgol, ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26 ar gael ar wefan y Cyngor.

4. Derbyni i Ysgolion – Dyddiadau Allweddol

4.1 Grwpiau Blwyddyn 2025-2026

Blwyddyn Academaidd 2025-2026

Blwyddyn	Oedran yn ystod y flwyddyn academaidd	Dyddiad geni rhwng	Cwricwlwm Cenedlaethol	
Cyn-feithrin	3	01.09.2022 – 31.08.2023		Cyfnod Sylfaen
Meithrin	4	01.09.2021 – 31.08.2022	Meithrin	
Derbyn	5	01.09.2020 – 31.08.2021	Derbyn	
1	6	01.09.2019 – 31.08.2020	Blwyddyn 1	
2	7	01.09.2018 – 31.08.2019	Blwyddyn 2	
3	8	01.09.2017 – 31.08.2018		Ysgolion Iau
4	9	01.09.2016 – 31.08.2017		
5	10	01.09.2015 – 31.08.2016		
6	11	01.09.2014 – 31.08.2015		
7	12	01.09.2013 – 31.08.2014		Dosbarth 1
8	13	01.09.2012 – 31.08.2013		Dosbarth 2
9	14	01.09.2011 – 31.08.2012		Dosbarth 3
10	15	01.09.2010 – 31.08.2011	Cyn-16	Dosbarth 4
11	16	01.09.2009 – 31.08.2010		Dosbarth 5
12	17	01.09.2008 – 31.08.2009	Ôl-16	Chweched Isaf
13	18	01.09.2007 – 31.08.2008		Chweched Uchaf

Oedran Ysgol Gorfodol

Pen-blwydd yn 5 oed yn cwmpo rhwng:	Cyrraedd Oedran Ysgol Gorfodol:
01.04.2020 – 31.08.2020	01.09.2025
01.09.2020 – 31.12.2020	01.01.2026
01.01.2021 – 31.03.2021	01.04.2026

Oedran Gadael yr Ysgol

Yn gyfreithiol, caiff disgybl adael yr ysgol ar ddydd Gwener olaf mis Mehefin yn yr un flwyddyn ysgol mae e'n/hi'n troi'n 16 oed [Blwyddyn 11].

Yn achos y flwyddyn ysgol 2025-2026, y dyddiad yma yw 12 Mehefin 2026.

Does dim disgybl ym Mlwyddyn 11 yn cael gadael yr ysgol cyn y dyddiad yma hyd yn oed os bydd e'n/hi'n troi'n 16 oed ar 1 Medi 2025.

4.2 Amserlen Derbyn ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2025-2026

Cohort Derbyn	Oedran Disgyblion	Ffurflenni cais ar gael o	Dychwelyd ffurflenni cais erbyn	Anfon llythyron nodi penderfyniad
Ysgol Uwchradd Blwyddyn 7	Pen-blwydd yn 12 oed yn cwmpo rhwng: 1 Medi 2025 a 31 Awst 2026	2 Medi 2024	11 Hydref 2024	3 Mawrth 2025
Ysgol Gynradd Blwyddyn 3 Trosglwyddo o Ysgol Babanod i Ysgol Iau neu Ysgol Gynradd	Pen-blwydd yn 8 oed yn cwmpo rhwng: 1 Medi 2025 a 31 Awst 2026	2 Medi 2024	8 Tachwedd 2024	16 Ebrill 2025
Ysgol Gynradd Dosbarth Derbyn h.y. 4 oed cyn 1 Medi 2025	Pen-blwydd yn 5 oed yn cwmpo rhwng: 1 Medi 2025 a 31 Awst 2026	2 Medi 2024	8 Tachwedd 2024	16 Ebrill 2025
Ysgol Gynradd Dosbarth Meithrin h.y. 3 oed cyn 1 Medi 2025	Pen-blwydd yn 4 oed yn cwmpo rhwng: 1 Medi 2025 a 31 Awst 2026	2 Medi 2024	8 Tachwedd 2024	16 Ebrill 2025
Derbyn disgyblion cyn-feithrin o fis Ionawr 2026 ymlaen Tymor y gwanwyn	Pen-blwydd yn 3 oed yn cwmpo rhwng: 1 Medi 2025 a 31 Rhagfyr 2025	1 Medi 2025	26 Medi 2025	7 Tachwedd 2025
Derbyn Disgyblion Cyn-feithrin o fis Ebrill ymlaen Tymor yr haf	Pen-blwydd yn 3 oed yn cwmpo rhwng: 1 Ionawr 2026 a 31 Mawrth 2026	1 Ionawr 2026	7 Chwefror 2026	13 Mawrth 2026

4.3 Amserlen Cyflwyno Apêl – Blwyddyn 7, Blwyddyn 3 a Dosbarthiadau Derbyn yn unig

Cohort Derbyn	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn apeliadau	Clywed apeliadau
Ysgol Uwchradd Blwyddyn 7	17 Mawrth 2025	Cyn pen 30 diwrnod o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn apeliadau.
Ysgol Gynradd Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 3 Ysgol Gynradd (o Ysgol Fabanod)	30 Ebrill 2025	Cyn pen 30 diwrnod o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn apeliadau.

Does dim gweithdrefnau cyflwyno apêl yn achos derbyn disgyblion meithrin a chyn-feithrin
Cofiwch mai rhieni sy'n gyfrifol am brofi eu bod nhw wedi cyflwyno cais am apêl. O ganlyniad i hyn, dylech chi anfon y cais drwy ddull sy'n rhoi tystiolaeth o'r ffaith ei fod wedi cyrraedd yn ddiogel (recorded delivery).

5. Apelio

5.1 Gweithdrefn Cyflwyno Apêl

- 5.1.1 Byddwn ni'n ysgrifennu at rieni/warcheidwaid ynglŷn â chanlyniad eu ceisiadau. Byddwn ni hefyd yn nodi'r ffordd o fynd ati i gyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad. Os oes modd apelio, gall hyn gael ei wneud yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 5.1.2 Mae gofyn bod rhieni/gwarcheidwaid yn nodi dewis cyntaf, ail ddewis a thrydydd dewis o ysgol ar y ffurflen gais. Os na fu'n bosibl derbyn y plentyn/plant i'r dewis cyntaf o ysgol (ar ôl cymhwyso'r meini prawf derbyn – gweler tudalen 8), bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'w dderbyn/derbyn i'r ail ddewis. Os byddwch chi'n anfodlon ar y penderfyniad yma, bydd hawl gyda chi i gyflwyno apêl.*
- 5.1.3 Os nad ydych chi wedi nodi ail ddewis a thrydydd dewis ar gyfer ceisiadau oedran ysgol gorfodol, byddwn ni'n cysylltu â chi i ofyn y canlynol:
- i. A ydych chi am nodi ail ddewis.
 - ii. A ydych chi am dderbyn ysgol amgen mae'r Awdurdod yn ei chynnig.
 - iii. A ydych chi am gyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn / plant i'r ysgol dewis cyntaf.
- * Dydy hyn ddim yn berthnasol yn achos ceisiadau i ysgolion neu ddosbarthiadau meithrin, neu ddarpariaeth cyn-feithrin.

5.2 Gweithdrefn cyflwyno apêl

- 5.2.1 Os ydych chi eisiau apelio yn erbyn deiliant eich cais i'ch plentyn/plant gael ei dderbyn / eu derbyn i ysgol (ar wahân i Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig yr Eglwysi), rhaid i chi wneud y canlynol:
- i. Cyflwyno hysbysiad ar bapur i'r Awdurdod cyn pen 14 diwrnod calendr (10 niwrnod gwaith) wedi chi gael yr wybodaeth ynghylch y penderfyniad.
 - ii. Anfon y llythyr apêl at y:
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN
 neu anfon e-bost:
DerbynDisgyblion@rctcbc.gov.uk
 - iii. Nodi yn y llythyr enw a dyddiad geni'r plentyn/plant rydych chi'n cyflwyno apêl ar ei ran / eu rhan. Nodi enw'r ysgol dewis cyntaf a sail yr apêl.
- 5.2.2 Bydd Swyddog Materion Derbyn yr Awdurdod yn trefnu bod panel annibynnol yn clywed unrhyw apeliadau. Bydd gwrandawriad yn cael ei drefnu cyn pen 30 o ddiwrnodau ysgol o'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno apeliadau (gweler 5.2.1).
- 5.2.3 Byddwch chi'n cael rhybudd o 14 diwrnod ymlaen llaw o leiaf (o ddyddiad anfon yr apêl), h.y. 10 niwrnod gwaith) ynglŷn â dyddiad cynnal yr apêl. Efallai bydd modd cynnal yr apêl cyn hynny, ar amod cael sêl bendith y ddwy ochr.
- 5.2.4 Cewch chi fynd i'r gwrandawriad a chyflwyno achos i'r panel (ar bapur ac/neu ar lafar) os dyna'ch dymuniad. Cewch chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod os dyna'ch dymuniad. Lle nad oes modd cynnal y cyfarfod yn gyfan gwbl yn Gymraeg, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu.
- 5.2.5 Os dewiswch chi ddod i'r gwrandawriad, mae hawl dod â chyfaill/cynrychiolydd (boed hynny'n rhywun sy'n rhoi cyngor i chi, cyfieithydd neu'n rhywun sy'n cyfieithu trwy'r iaith arwyddion ar eich rhan) a fydd yno'n gefn i chi yn unig, oni bai'ch bod chi, y rhiant/gwarcheidwad, yn dewis bod yr unigolyn hwnnw yn siarad ar eich rhan. Os bydd rhywun yn dod gyda chi, rhowch wybod i'r Awdurdod ymlaen llaw.
- 5.2.6 Os ydych chi eisiau i gyfreithiwr eich cynrychioli chi, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod mewn ysgrifen o leiaf 7 niwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad (cyfeiriad uchod).
- 5.2.7 Chewch chi ddim dod ag aelod o Gyngor y Fwrdeistref Sirol, Swyddog yr Awdurdod Lleol na gwleidydd lleol. Bydd hynny'n osgoi unrhyw wrthdaro posibl o ran buddiannau.

- 5.2.8 Os byddwch chi'n dewis peidio â mynd i'r gwrandawriad; bydd y penderfyniad ar sail cynnwys eich llythyr gwreiddiol, ac unrhyw wybodaeth ategol arall (mewn ysgrifen) sydd wedi'i chyflwyno.
- 5.2.9 Byddwch chi'n cael gwybod am ddeiliant eich apêl drwy lythyr cyn pen 5 diwrnod gwaith o ddiwrnod olaf y gwrandawriad.
- 5.2.10 Fydd derbyn ail ddewis ddim yn eich atal chi rhag cyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn/plant i'r ysgol dewis cyntaf.
- 5.2.11 Cofiwch mai rhieni sy'n gyfrifol am brofi eu bod nhw wedi cyflwyno cais am apêl. O ganlyniad i hyn, dylech chi anfon y cais drwy ddull sy'n rhoi tystiolaeth o'r ffaith ei fod wedi cyrraedd yn ddiogel (recorded delivery).

5.3 Apeliadau Meithrin

5.3.1 Plant o oed Dosbarth Meithrin (dan 5 oed)

Does dim trefn ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch gwrthod lle i blentyn o oed dosbarth meithrin, boed hynny'n amser llawn neu'n rhan-amser.

5.4 Y sail ar gyfer cyflwyno apêl

- i. Bydd pob apêl yn cael ei hystyried yng ngoleuni meini prawf derbyn plant yr Awdurdod i benderfynu a gafodd y broses ei dilyn yn gywir yn nhermau cymhwyso'r meini prawf. (gweler tudalen 8)
- ii. Os bydd yr ysgol yn llawn, byddwn ni'n rhoi ystyriaeth i achos y rhiant/gwarcheidwad i benderfynu a ddylai'r plentyn/plant gael lle yn yr ysgol honno.
- iii. Mewn perthynas ag apêl yn erbyn derbyn i ddsbarth derbyn, blwyddyn 1 neu flwyddyn 2 sy'n cael ei effeithio gan y cyfyngiad maint dosbarth o 30, rhaid i'r panel ystyried a gafodd y meini prawf derbyn eu cymhwyso'n gywir yn unig.

5.5 Newyddion diweddaraf am apeliadau 2023-2024

Yn ystod y Flwyddyn Academaidd 2023-2024, derbyniodd yr Awdurdod 19 apêl oddi wrth rieni/warcheidwaid a oedd wedi bod yn aflwyddiannus gyda'u ceisiadau ar gyfer ysgolion cymuned. O'r 19 apêl yma, dyma'r deilliannau:

- Llwyddiannus: 6
- Aflwyddiannus: 3
- Tynnu apêl yn ôl: 0

Yn ystod y Flwyddyn Academaidd 2023-2024, daeth dim apeliadau i law gan rieni/gwarcheidwaid a oedd wedi cyflwyno cais aflwyddiannus i'w plant fynychu ysgol wirfoddol gymorthedig (ysgol yr eglwys).

5.6 Apeliadau yn ymwneud ag Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Ysgolion yr Eglwys)

Mae gofyn i chi gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad ynghylch derbyn disgyblion i'r ysgol yn uniongyrchol i'r corff llywodraethu yn achos Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig. Mae modd gwneud hynny trwy anfon llythyr ar gyfer sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethu a'i anfon e i'r ysgol dan sylw.

6. Gwybodaeth Gyffredinol i Rieni / Warcheidwaid

6.1 Presenoldeb Cyson yn yr Ysgol

- 6.1.1 Rydyn ni'n gwybod bod presenoldeb cyson yn ffactor pwysig wrth gefnogi datblygiad a lles cymdeithasol, emosïynol ac addysgiadol plant a phobl ifainc. Oherwydd hynny, mae'r Awdurdod Lleol yn cymryd absenoldebau o ganlyniad i driwantiaeth neu absenoldebau gyda chaniatâd rhieni o ddifrif.
- 6.1.2 Yr ysgolion sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â phresenoldeb gwael neu anghyson yn y lle cyntaf. Serch hynny, os na fydd y sefyllfa yn gwella, mae'r ysgolion yn cael eu hannog i atgyfeirio disgyblion i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles. O dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd gyfreithiol ar y rhieni i sicrhau bod eu plant yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a dawn eu plant, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall. Lle mae digon o dystiolaeth nad yw rhieni yn cyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol yma, gall yr Awdurdod Lleol gymryd camau cyfreithiol o dan Adran 444 (1) a/neu (1A) o Ddeddf Addysg 1996. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r cyfrifoldeb yma wedi'i ddatganoli i'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles.
- 6.1.3 Yn unol â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno Cod Ymddygiad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig am fod yn absennol o'r ysgol yn rheolaidd. Bydd pob hysbysiad cosb sy'n cael ei gyflwyno yn cael ei brosesu yn unol â'r Cod yma. Mae modd cael gafael ar gopi ohono gan unrhyw ysgol yn RhCT neu'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles (PresenoldebaLles@rhondda-cynon-taf.gov.uk), neu wefan y Cyngor (www.rctcbc.gov.uk).
- 6.1.4 Ar ben hynny, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd lem tuag at gymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. Bydd Penaethiaid Ysgol yn ystyried pob cais ar ei rinwedd ei hun. Eu penderfyniad nhw yw rhoi caniatâd i gymryd gwyliau neu beidio. Os oes amgylchiadau arbennig sy'n rhwystro teulu rhag mynd ar wyliau yn ystod gwyliau'r ysgol, efallai y bydd y pennaeth ysgol yn penderfynu awdurdodi'r cais. Mae modd cael rhagor o fanylion ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'ch ysgol leol.

6.2 Polisi'r Awdurdod ar Fwyd a Diod mewn ysgolion

6.2.1 Prydau ysgol

Mae gwasanaeth arlwyo ymhob ysgol ac mae prydau'n cael eu coginio a'u gweini gan staff sydd wedi'u hyfforddi gan ddefnyddio cynnyrch o ansawdd uchel a chynhwysion sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch diogelwch bwyd. Mae'r holl brydau'n cydymffurfio â gofynion rheoliadau Safonau a Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru.

6.2.2 Mae'r gwasanaeth yn cael ei addasu er mwyn diwallu anghenion yr ysgol. Mae modd darparu ar gyfer gofynion dietegol penodol. Serch hynny, fydd dim modd darparu gofyniad dietegol a ragnodwyd yn feddygol nes i'r weithdrefn ganlynol gael ei chwblhau:

- Mae angen i rieni/gwarcheidwaid lenwi ffurflen ar-lein ar wefan y Cyngor i gofrestru gofyniad dietegol a ragnodwyd yn feddygol. Bydd rhaid i chi ddiweddarau'r dystiolaeth feddygol briodol, wedi'i chyflwyno gan ymarferydd meddygol neu ddietegydd cofrestredig, sy'n cadarnhau gofynion dietegol y plentyn. porthigwsmeriaid.rctcbc.gov.uk/ffurflengaisdietwediiragnodinfeddygol
- Rhaid bod bwydlen unigryw wedi'i llunio sy'n diwallu anghenion y plentyn.
- Mae'r Penaethiaid wedi rhannu'r fwydlen gyda'r holl staff perthnasol. Mae modd cychwyn y broses yma cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol i osgoi oedi o ran darparu prydau.

6.2.3 Y fenter brechwast am ddim mewn ysgolion cynradd

Mae brechwast am ddim ar gael rhwng 8am a 9am (mae'n bosibl y bydd amrywiadau o ran amser yn berthnasol yn lleol) ym mhob ysgol gynradd.

6.2.4 Llaeth Ysgol

Caiff y disgyblion canlynol laeth am ddim bob dydd:

- Y rheiny o dan 5 oed sy'n mynychu lleoliad am 2 awr neu fwy
- Y rheiny rhwng 5 a 7 oed.

6.2.5 **Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd:**

Yn Rhondda Cynon Taf, bydd y Cyngor yn cyflwyno'r cynnig prydau ysgol am ddim fel a ganlyn:

- O 5 Medi 2022 ymlaen, bydd pob disgybl dosbarth Derbyn wedi cael cynnig prydau ysgol am ddim.
- O fis Ionawr 2023, estynnwyd y cynnig i gynnwys holl ddisgyblion Blwyddyn 1 a disgyblion Meithrin cymwys.
- O fis Ebrill 2023, estynnwyd y cynnig i gynnwys holl ddisgyblion Blwyddyn 2 a disgyblion Meithrin cymwys.
- O fis Medi 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 a disgyblion Meithrin cymwys.
- O fis Ebrill 2024, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys pob disgybl ym Mlynyddoedd 5 a 6 a disgyblion Meithrin cymwys.

6.2.6 **Prydau Ysgol am Ddim**

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i blant y mae eu rhieni neu warcheidwaid yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol ar hyn o bryd:

- Credyd Treth Plant – lle mae'r incwm blynyddol hefyd yn llai na £16,190
- Cymhorthdal Incwm (gyda chyfrifoldeb am blant)
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm (gyda chyfrifoldeb am blant)
- Cymorth o dan ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Mae disgyblion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm hefyd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ([yn seiliedig ar incwm] ESA[IR])
- Credyd Cynhwysol (os ydych chi'n gweithio, dylai'r enillion net blynyddol fod yn £7,400 neu lai)
- Credyd Treth Gwaith 'parhad' – y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl iddo beidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith

Os ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bosibl fod gyda chi hawl i bryd ysgol am ddim i'ch plentyn, llenwch ffurflen gais ar-lein. Mae'r ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor. Unwaith eich bod chi'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, byddwch chi'n gymwys i dderbyn grant gwisg ysgol ac offer ysgol (Grant Hanfodion Ysgol) a bydd eich ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer ei disgyblion.

Mae rhaid i chi wneud cais am Brydau Ysgol am ddim hyd yn oed os ydych chi'n derbyn Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, gan y bydd hyn yn effeithio ar hawl bosibl eich plentyn i gael Grant Hanfodion Ysgol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Gwasanaethau Arlwyio Rhondda Cynon Taf

☎ 01443 281141

✉ gwasanaethauarlwyio@rctcbc.gov.uk

neu fwrw golwg ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk/ArlwyioYsgolion

6.3 **Polisi'r Awdurdod ar Wisg Ysgol**

6.3.1 Mae gwisgo gwisg ysgol mewn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yn hollol wirfoddol. Mae'n orfodol ym mhob ysgol uwchradd.

Nodwch: Mae gan ysgolion unigol eu polisiâu eu hunain mewn perthynas â bwyd a diod a gwisg ysgol hefyd. Dylech chi gysylltu'n uniongyrchol â nhw am fanylion llawn.

6.4 **Polisi'r Awdurdod ar gofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau cyhoeddus**

6.4.1 Mae pob ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf yn cynnig ystod lawn o gyrsiau lefel 2 i ddiwallu anghenion y disgyblion, gyda llawer ohonyn nhw ar gyfer cymwysterau lefel TGAU. Mae'r holl ysgolion 11-18 a 3-19 oed yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau lefel 3, sy'n gyrsiau TAG Safon Uwch yn bennaf, ac mae bron pob un o'n hysgolion uwchradd yn cynnig Bagloriaeth Cymru a chysiau Lefel 2 a Lefel 3 (lle bo'n briodol). Yn ogystal â hyn, mae nifer o ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau eraill ar lefel GNVQ a NVQ.

6.4.2 Mae'r ysgolion yn cofrestru disgyblion unigol ar gyfer arholiadau yn ddibynnol ar eu dewisiadau pwnc ac ar ôl ystyried anghenion pob disgybl gan athrawon, rhieni a'r disgyblion eu hunain. Yn ogystal â'r cyngor sy'n cael ei roi gan ysgolion, bydd swyddogion Gyrfa Cymru hefyd yn darparu cyngor. Yr ysgol sy'n ysgwyddo cost sefyll arholiadau cymeradwy.

6.5 Addysg Cyfrwng Cymraeg ac Iaith Gymraeg

- 6.5.1 Yn unol â darpariaethau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r rheoliadau perthnasol, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi llunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n amlinellu ei ymrwymiad i wella'r dull o gynllunio'r ddarpariaeth addysg Gymraeg a gwella safonau o ran addysg Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol yn ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn Rhondda Cynon Taf yn cael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol, ni waeth beth fo iaith y cartref. Mae modd i addysg Gymraeg gynnig cyfleoedd, profiadau a sgiliau ychwanegol i'ch plentyn neu blant.
- 6.5.2 Dydy addysg Gymraeg ddim yr un peth ag addysgu'r Gymraeg fel pwnc academiaidd. Mae Cymraeg fel pwnc yn cael ei dysgu fel iaith gyntaf mewn ysgolion Cymraeg. Yn y mwyafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg, mae Cymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith. Mae addysgu'r Gymraeg yn un o ofynion gorfodol y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Gymraeg yn iaith i bawb ac yn un o drysorau'r wlad. Mae'n rhan o'r hyn sy'n diffinio ein hunaniaeth a'n cenedl. Ein nod yw sicrhau bod pawb sy'n derbyn addysg mewn ysgol neu leoliad yng Nghymru yn cael ei gefnogi i fwynhau defnyddio'r Gymraeg, i wneud cynnydd parhaus o ran dysgu Cymraeg ac i feithrin yr hyder a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- 6.5.3 Ar hyn o bryd, mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hyn yn y ffyrdd canlynol, yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.
- Mae addysg ar gael yn yr ysgolion cynradd Cymraeg i bob disgybl y mae ei rieni yn dewis y cyfrwng hwnnw o addysg. Er mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu, mae disgyblion hefyd yn astudio Saesneg i'r lefel briodol o Flwyddyn 3 ymlaen. Mae hyn yn rhan o MDPH Cwricwlwm i Gymru - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.
 - Bydd modd i ddisgyblion barhau â'u haddysg mewn Ysgol Uwchradd Gymraeg. Mae Cymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith yn y rhan fwyaf o ysgolion cyfrwng Saesneg.

Addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- O Feithrin i Flwyddyn 2, mae pob disgybl yn dysgu Cymraeg. Mae'r pwyslais ar ddefnyddio'r iaith gyda diben ac mewn sefyllfaoedd ystyrion. Yn ogystal â hynny, mae'r defnydd achlysurol o'r iaith yn cael ei annog yn ystod y diwrnod ysgol.
 - Ym Mlynnyddoedd 3-6, mae'r iaith lafar yn cael ei datblygu ymhellach ac mae rhagor o sylw yn cael ei dalu i ddysgu sgiliau darllen ac ysgrifennu.
 - Ym Mlynnyddoedd 7-11, mae bob disgybl yn dysgu Cymraeg. Mae cyfleoedd yn cael eu darparu ym mhob ysgol i ddisgyblion barhau â'u hastudiaethau ar gyfer arholiadau 16 oed+ a Safon Uwch.
- 6.5.4 **Manteision Addysg Cyfrwng Cymraeg**
Mae llawer o fanteision ynghlwm ag Addysg Gymraeg bod yn ddwyieithog. Mae'r manteision yn parhau wrth i chi fynd yn hŷn hefyd, gan fod siarad mwy nag un iaith yn sgil ychwanegol i'w nodi ar eich CV. Mae cyflogwyr yng Nghymru angen gweithluoedd dwyieithog er mwyn gallu cynnig gwasanaethau yn y naill iaith a'r llall.

Mae'r rhan fwyaf o rieni/gwarcheidwaid yn Rhondda Cynon Taf sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yn siarad Saesneg gartref. Mae ein hysgolion wedi arfer â'r dull yma ac yn cynnig cefnogaeth wych. Mae ein llyfryn Bod yn Ddwyieithog yn rhoi rhagor o fanylion am fanteision Addysg Gymraeg ac mae ganddo adran Cwestiynau Cyffredin ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid sy'n siarad Saesneg yn bennaf.

Mynnwch olwg ar ein llyfryn Bod yn Ddwyieithog:

www.rctcbc.gov.uk/bodynddwyieithog



7.1 Rhestr o Ysgolion Gynradd / Uwchradd Cysylltiedig

Os ydy'ch plentyn wedi'i gofrestru gydag ysgol gynradd gysylltiedig, dydy hi ddim yn dilyn y bydd lle – na hawl – iddo/iddi gael lle mewn ysgol gyfun/uwchradd benodol.

1. Ysgol Gymunedol Aberdâr

Ysgol Gynradd Abernant
Ysgol Gynradd Parc Aberdâr
Ysgol Gynradd Blaengwawr
Ysgol Gynradd Cap-coch
Ysgol Gynradd Caradog
Ysgol Gynradd Cwmaman
Ysgol Gynradd Cwm-bach
Ysgol Gynradd Cwmdâr
Ysgol Gynradd Hirwaun
Ysgol Gynradd Llwydcoed
Ysgol Gynradd Oaklands
Ysgol Gynradd Pen-y-waun

2. Ysgol Gyfun Bryncelynnog

Ysgol Gynradd Gwauncelyn
Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn
Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref
Ysgol Gynradd Llantrisant
Ysgol Gynradd Llwyn-crwn
Ysgol Gynradd Maes-y-bryn
Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi

3. Ysgol Gymuned Glynrhedynog

Ysgol Gynradd Parc y Darren
Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy
Ysgol Gynradd Pen-rhys
Ysgol Gynradd Tylorstown
Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith

4. Ysgol Afon Wen

Ysgol Gynradd Ffynnon Taf
Ysgol Gynradd Parc Lewis

5. Ysgol Gyfun Aberpennar

Ysgol Gynradd Abercynon
Ysgol Gynradd Caegarw
Ysgol Gynradd y Darren-las
Ysgol Gynradd Gymuned Glenbói
Ysgol Gynradd Meisgyn
Ysgol Gynradd Pengeulan
Ysgol Gynradd Penrhiwceibr
Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn
Ysgol Gynradd Gymuned Ynys-boeth

6. Ysgol Bro Taf

Ysgol Gynradd y Cefn
Ysgol Gynradd Coedpenmaen
Ysgol Gynradd Coed-y-lan
Ysgol Gynradd Craig-yr-hesg
Ysgol Gynradd Maes-y-coed
Ysgol Babanod Trallwng
Ysgol Gynradd Trehopcyn
Ysgol Gynradd Trerobat

7. Ysgol Gymuned y Porth

Ysgol Gynradd Alaw
Ysgol Gynradd y Cymer
Ysgol Gynradd yr Hafod
Ysgol Gynradd Trealaw
Ysgol Gynradd Ynys-hir

8. Ysgol Nant-gwyn

Ysgol Gynradd Cwm Clydach
Ysgol Gynradd Llwynypïa
Ysgol Gynradd Pontrhondda
Ysgol Gynradd Trewiliam

9. Ysgol Gymuned Tonyrefail

Ysgol Gynradd Cwmlai
Ysgol Gynradd Gymuned Hendreforgan
Ysgol Gynradd Tref-y-rhyg

10. Ysgol Gyfun Treorci

Ysgol Gynradd Bodringallt
Ysgol Gynradd y Gelli
Ysgol Gynradd y Parc
Ysgol Gynradd Gymuned Pen-pych
Ysgol Gynradd Gymuned Pen-yr-englyn
Ysgol Babanod Tonpentre
Ysgol Iau Tonpentre
Ysgol Gynradd Treorci

11. Ysgol Gyfun y Pant

Ysgol Gynradd Brynnau
Ysgol Gynradd Dolau (Uned Saesneg)
Ysgol Gynradd Llanhari
Ysgol Gynradd Llanharan
Ysgol Gynradd Pont-y-clun
Ysgol Gynradd Tonysguboriau

12. Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt
Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn
Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn
Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn
Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen

13. Ysgol Garth Olwg

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau
Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James
Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf

14. Ysgol Llanhari

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail
Ysgol Gynradd Dolau (Uned Gymraeg)

15. Ysgol Gyfun Rhydywaun

Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon
Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr
Ysgol Gynradd Gymuned Penderyn

16. Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

Ysgol Gynradd y Forwyn Fair
Eglwys Gatholig Rhufain
Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael
Eglwys Gatholig Rhufain

17. Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru

Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru
Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru
Trefniant gydag awdurdodau cyfagos
(gweler tudalen 35)

18. Ysgol Gyfun Pen-coed – Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Gynradd Brynnau
Ysgol Gynradd Dolau
Ysgol Gynradd Llanharan

19. Ysgol Gatholig Y Bendigaid Carlo Acutis – Merthyr Tudful

Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys
Gatholig Rhufain

8. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf – Darpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol

8.1 Y Polisi

Polisi'r Awdurdod yw bod pob plentyn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl dan amodau Deddf Addysg 1996 (sydd wedi cael ei ddiwygio o dan ofynion Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau 2001 a Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018), yn cael ei addysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu ddwy iaith brif ffrwd yn ei gymuned leol. Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 yn darparu cyngor statudol ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Mae rhagor o arweiniad yn cael ei ddarparu yn Neddf Cydraddoldeb 2010. O fewn cyd-destun y datganiad polisi yma, mae'r Awdurdod yn ymroddedig i ddilyn yr egwyddorion canlynol ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol.

- Ymrwymiad i'r egwyddor o gynhwysiant cyn belled ag y bo hynny'n addas ar gyfer y plentyn sy'n derbyn y ddarpariaeth addysg ychwanegol ofynnol, ymrwymiad i ddarparu addysg effeithlon ar gyfer y plant eraill sy'n cael eu haddysgu gydag ef/hi, ac i'r defnydd effeithlon o adnoddau.
- Bydd anghenion dysgu ychwanegol plant, gan gynnwys y rheiny sy'n rhy ifanc i ddechrau yn yr ysgol, yn cael eu nodi, eu cofnodi, eu hasesu a'u diwallu mor gynnar â phosibl, a byddan nhw'n cael eu hadolygu'n gyson.
- Byddwn ni'n annog rhieni/gwarcheidwaid/cynhalwyr i gymryd rhan yn y broses o nodi ac asesu anghenion dysgu ychwanegol eu plentyn. Bydd penderfyniadau mewn perthynas â darpariaeth addysg ychwanegol yn cael eu gwneud gan ganolbwyntio ar yr unigolyn ac ystyried barn y plentyn ei hun lle mae hynny'n bosibl. Mae'r dull cydweithredu ar gyfer darparu addysg ychwanegol yn cynnwys arweiniad i rieni/warcheidwaid a chynhalwyr ynglŷn â'u hawliau statudol, gwaith paratoi cynrychiolaeth y rhieni a'r ffyrdd y gallan nhw weithio mewn partneriaeth ag ysgol y plentyn.
- Darparu cyfle addysgol o safon ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, a chydabyddiaeth o'u hawl i gyrraedd cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol. Bydd yr egwyddor yma yn gymwys waeth beth fo'r rhyw, hil, anghenion dysgu ychwanegol neu anabled.
- Cydnabod y gall plentyn fod ag anghenion addysgol a fydd yn gofyn am ddarpariaeth arbennig ar unrhyw adeg.
- Cynnal ystod hyblyg o wasanaethau canolog i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol disgyblion unigol. Bydd adnoddau'r ysgolion lleol yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Serch hynny, rydyn ni'n cydnabod y bydd angen adnoddau ychwanegol ar rai plant.
- Cynnal a chadw ystod o wasanaethau canolog i gynorthwyo ynglŷn ag asesu a rhoi cyngor ar ddarparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Cydnabod pwysigrwydd cysylltu effeithiol gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol, wrth bennu natur anghenion dysgu ychwanegol plentyn a'r ddarpariaeth sydd ei hangen wrth ymateb i'r anghenion yma drwy weithio mewn partneriaeth.
- Cydnabod dyletswydd yr Awdurdod o ran ei swyddogaeth cynllunio strategol, i fonitro ac adolygu'i drefniadau yn rheolaidd ar gyfer sicrhau darpariaeth dysgu ychwanegol effeithiol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wasanaeth ar gyfer pennu anghenion dysgu ychwanegol plentyn mor drylwyr a phrydlon ag y bo modd.
- Bydd unrhyw gymorth ychwanegol sydd wedi'i nodi yn cael ei ddarparu heb oedi dianghenraid. Mae safon y ddarpariaeth a threfnu staff arbenigol ledled y Fwrdeistref Sirol yn cael ei adolygu'n aml.
- Darparu cyfarwyddyd, cymorth a hyfforddiant ar gyfer Lywodraethwyr, Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a staff sy'n ymwneud â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cynnydd pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei fonitro'n fanwl a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.

8.2 **Lleoliadau Addysg Arbenigol**

Mae Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn nodi'n glir y dylai'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gael addysg ychwanegol gynhwysol ac addas yn eu hysgolion prif ffrwd cyfrwng Cymraeg, Saesneg neu ddwy iaith lleol. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd plant sydd ag anghenion dysgu sylweddol a chymhleth iawn yn cael cynnig lle mewn Dosbarth Cymorth Dysgu o fewn ysgol prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig.

Mae'n bosibl y bydd plant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol a hynod gymhleth yn derbyn eu haddysg trwy Ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) RhCT.

Mae penderfyniadau ynglŷn â lleoliadau arbennig yn cael eu gwneud gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn dilyn ymgynghoriad gyda'r rhieni, ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau cymorth perthnasol eraill.

8.3 **Cyngor**

Os bydd rhieni/gwarcheidwaid o'r farn bod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol, dylen nhw drafod hynny gyda phennaeth ysgol bresennol y plentyn yn y lle cyntaf.

Mae modd cael rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol sy'n diwallu anghenion dysgu ychwanegol ar ein gwefan: www.rctcbc.gov.uk neu drwy ffonio'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant yn:

Canolfan Menter y Cymoedd

☎ 01443 744344

Mae cyngor proffesiynol i'w gael gan bob carfan o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad sy'n cynnwys:

Mynediad a Chynhwysiant

☎ 01443 744333

Gwasanaeth Gweinyddu Anghenion Dysgu Ychwanegol

☎ 01443 744344

Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

9. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg

Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau ynghylch Teithiau Disgyblion/Myfyrwyr

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Rhondda Cynon Taf ddarparu gwybodaeth ynghylch ei bolisiau a'i drefniadau ar gyfer cludo disgyblion.

O ganlyniad i hynny, cafodd canllawiau Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau'r Cyngor eu llunio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid a disgyblion am y ffordd y caiff y polisi ei roi ar waith yn ymarferol a'r ffordd rydyn ni'n sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson ledled y Fwrdeistref Sirol.

Bydd unrhyw benderfyniad a gaiff ei wneud o ran hawl yn seiliedig ar y ddogfen yma. Caiff unrhyw benderfyniad ei ystyried i fod yn un terfynol, cyn belled ei fod e'n cydymffurfio a'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen.

9.1 Darpariaeth Statudol o Gludiant am Ddim

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud y canlynol:

- Asesu anghenion teithio disgyblion yn ei ardal.
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion cynradd sy'n byw mwy na 2 filltir o'r ysgol addas agosaf.
- Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion uwchradd sy'n byw mwy na 3 milltir o'r ysgol addas agosaf.
- Asesu a diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn ei ardal.
- Hyrwyddo mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.
- Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio.

I fodloni'r ddyletswydd yma, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i "bellter cerdded" diogel o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at y dalgylch neu'r ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol ddwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig agosaf, fel y bo'n briodol.

Mae'r gyfraith yn diffinio "pellter cerdded" diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg gynradd, a thair milltir i ddisgyblion o oedran addysg gorfodol sy'n cael addysg uwchradd. .

9.2 Cludiant am ddim – darpariaeth ddewisol

Y tu hwnt i'r isafswm statudol, mae'r Cyngor wedi penderfynu defnyddio'i bwerau dewisol sy wedi'u cynnwys yn narpariaethau'r Mesur i gynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion wrth ystyried hawl ar sail pellter cerdded diogel.

Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at y dalgylch neu'r ysgol Gymraeg, ysgol Saesneg, ysgol ddwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig agosaf, fel y bo'n briodol. Dydy hyn ddim yn berthnasol i ddisgyblion sydd ddim â hanes parhaus o fynychu ysgol wirfoddol gymorthedig o enwad crefyddol penodol.

- **Disgyblion Cynradd (Meithrin i Flwyddyn 6)**

Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n cael addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.

Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf, lle mae llefydd ar gael, ar gyfer disgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1.5 milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl cael eu pen-blwydd yn 3 oed), yn hytrach nag o adeg dechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.

- **Disgyblion Uwchradd (Blynyddoedd 7 i 11)**

O fis Medi 2025, y maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n cael addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf yw 3 milltir, yn unol â meini prawf pellter statudol Llywodraeth Cymru.

- **Myfyrwyr ôl -16 oed**

O fis Medi 2025, mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed sy'n bodloni'r meini prawf 3 filltir am ddwy flynedd ar ôl diwedd addysg orfodol, yn hytrach na hyd ddiwedd addysg orfodol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn academaidd pan fydd y disgybl/myfyriwr yn troi'n 16 oed), fel sy'n ofynnol gan y Mesur. Mae'r ddarpariaeth yma'n berthnasol i ddisgyblion neu fyfyrwyr amser llawn sy'n mynychu'r ysgol neu'r coleg agosaf i'w cartrefi sy'n darparu'r cwrs cymeradwy maen nhw am ei astudio. Ceir rhagor o wybodaeth am fyfyrwyr ôl-16 oed yn adran 9.15.

- **Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Bydd cludiant am ddim i ddisgyblion a chanddyn nhw anghenion dysgu ychwanegol/anabledau sy'n mynychu ysgol yn eu dalgylch neu'r ysgol arbennig agosaf, uned cyfeirio disgyblion neu ddosbarth cynnal dysgu, ar yr amod eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf isod:

- Bydd disgyblion oed cynradd (gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen) sydd wedi cael cynnig lleoliad yn cael cludiant am ddim, os ydyn nhw'n byw 1.5 milltir neu fwy o'r lleoliad ysgol, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur;
- Bydd disgyblion oed uwchradd (gan gynnwys myfyrwyr Ôl-16 sy'n mynychu ysgolion/colegau arbennig) sydd wedi cael cynnig lleoliad yn cael cludiant am ddim os ydyn nhw'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol neu'r lleoliad coleg, yn hytrach na 3 milltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur;
- Mae elfennau dewisol polisi'r Cyngor yn destun adolygiad ac mae modd i ni eu dirwyn i ben. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn destun gwaith ymgynghori â'r disgyblion a'r rhieni/gwarcheidwaid ac yn amlach na pheidio, o gytuno ar y newidiadau arfaethedig, byddan nhw'n cael eu cymhwysu ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Byddan nhw hefyd yn cyd-fynd â'r Ddarpariaeth Statudol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr a'r Canllawiau Gweithredol - Mehefin 2014 neu'r hyn sy'n eu disodli.

9.3 **Darpariaeth Cludiant**

Os bydd hawl gan ddisgyblion i gael cludiant ysgol am ddim, fydd dim rhaid iddyn nhw gyflwyno cais. Bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig yn rhoi gwybod iddyn nhw am eu hawl. Y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant fydd yn rhoi gwybod i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol am eu hawl.

Bydd cludiant ysgol am ddim (yn unol â'r trefniadau uchod) yn cael ei ddarparu ar ddechrau a diwedd diwrnod arferol yr ysgolion, a hynny yn ystod tymhorau'r ysgolion yn unig. Fydd dim darpariaeth amser cinio.

Fydd y gwasanaeth yma ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer apwyntiadau meddygol, casglu disgyblion/myfyrwyr anhwylyd o'r coleg neu'r ysgol, gofynion ataliadau nac amserlenni rhan amser/arholiadau.

Os bydd y Cyngor yn trefnu addysg mewn ysgol breswyl y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol, bydd cludiant am ddim ar gael ar ddechrau a diwedd pob hanner tymor yn unig.

Yn amlach na pheidio, byddwn ni'n darparu cludiant o fannau codi penodol ar hyd llwybrau trafniadaeth gyhoeddus sy'n agosaf i gartref y disgybl. Fydd cludiant ddim yn cael ei ddarparu i gyfeiriadau eraill oherwydd gwaith y riant neu ymrwymadau eraill. Lle bo disgybl yn wynebu taith dros bellter afresymol o hir i'r arhosfan, efallai byddai modd gwneud trefniadau cludo arbennig. Yn achos y rheiny y mae gyda nhw Anghenion Dysgu Ychwanegol, fel arfer bydd cludiant ar gael o'u cartrefi ac yn ôl eto, gyda phob ymdrech i godi/gollwng wrth ymyl y ffordd. Cyfrifoldeb rhieni yw mynd â'u plentyn/plant i'r cerbyd a'u hôl nhw o'r cerbyd. Fydd trefniadau cludiant ddim yn cynnwys mynd ar hyd ffyrdd heb eu mabwysiadu, tir preifat neu draciau mynediad i ffermydd.

Fydd hi ddim bob amser yn bosibl trefnu i'n cerbydau dan gontract gasglu/gollwng disgyblion yn agos i'w cartrefi. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y bydd hi'n angenrheidiol i rieni/warcheidwaid wneud trefniadau i'r disgybl gyrraedd y man casglu agosaf sydd ar gael iddo/iddi. Byddwn ni'n gwneud pob ymdrech i gadw'r pellter o gartref y disgybl i'r man casglu mor fyr â phosibl. Fydd hyn, fel arfer, ddim yn hwy na milltir.

Mae'n fwrriad gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf i ddarparu system lle bydd disgyblion yn cael eu cludo'n ddiogel, yn gyfforddus a chymharol hwylus.

9.4 **Plant sy'n Derbyn Gofal**

Gyda golwg ar oedran a phellter, mae'r un meini prawf i'w cymhwyso yn achos plant sydd dan adain gofal yr awdurdod. Os bydd y Cyngor o'r farn y dylai plentyn sydd dan ei ofal fynd i ysgol arall, yn hytrach na'r ysgol addas agosaf, bydd y Cyngor yn trefnu cludiant ar gais gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'i awdurdodi gan Reolwr y Garfan Gwaith Cymdeithasol briodol yn unol â pholisi cytunedig y Cyngor ar bellter cerdded a llwybrau diogel (gweler uchod). Bydd awdurdodau lleol sy'n lleoli Plant sy'n Derbyn Gofal yn Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am ariannu'r trefniadau cludiant.

9.5 **Dewis Rhieni**

Os yw rhiant/gwarcheidwad yn dewis rhoi ei blentyn mewn ysgol sydd ddim yn y dalgylch (Cymraeg, Saesneg, dwy iaith, ysgol prif ffrwd eglwysig neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol), yna, rhaid i'r rhiant/gwarcheidwad hwnnw fod yn gwbl gyfrifol am drefnu cludiant i'r ysgol o ddewis a'r costau cysylltiedig, oni bai fod yr ysgol honno'n agosach at gartref y disgybl na'r ysgol dalgylch benodedig.

9.6 **Trefniadau y Tu Allan i'r Sir**

Efallai bydd cludiant ar gael ar gyfer disgyblion cymwys sy'n cael addysg y tu allan i ffiniau'r Fwrdeistref Sirol pan fyddan nhw'n mynychu'r ysgol addas agosaf yn hytrach na'r ysgol yn y dalgylch benodol.

9.7. **Ysgolion sy'n llawn**

Os nad oes lle ar gyfer disgybl yn yr ysgol addas agosaf (ysgol y dalgylch, cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, dwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig yr eglwysi neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol) a bod rhaid iddo fynd i ysgol arall sy'n bellach na'r meini prawf ar gyfer cerdded o'i gartref, byddwn ni'n trefnu cludiant iddo fynd i'r ysgol addas agosaf nesaf. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gludo brodyr/chwiorydd i'r un ysgol.

9.8. **Darpariaeth wedi'i Diogelu – Newid Ffiniau Dalgylchoedd**

Os bydd y Cyngor yn penderfynu newid dalgylch ar gyfer ysgol (ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, dwy iaith, ysgol brif ffrwd wirfoddol gymorthedig (ffydd) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol), caiff trefniadau trafndiaeth presennol eu diogelu ar gyfer y disgyblion sy'n byw yn yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan y newid drwy gydol eu hamser yn yr ysgol neu nes iddyn nhw gyrraedd diwedd y cyfnod hwnnw. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd ystyriaeth yn cael eu rhoi i gludo brodyr/chwiorydd i'r un ysgol.

9.9. **Trefniadau arbennig ar gyfer teithiau peryglus**

Mae'r maen prawf ar gyfer penderfynu pwy sydd â hawl i gael cludiant ysgol am ddim neu yn seiliedig ar bellter cerdded diogel ar hyd y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddiwynnu ar oedran y disgybl. Rydyn ni'n cydnabod y bydd rhai achosion yn codi pan fydd rhai llwybrau'n dod yn fwy peryglus. Yn yr amgylchiadau yma, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i drefnu cludiant ysgol am ddim ar gyfer pellter llai na'r pellter arferol, os yw'r swyddogion priodol yn argymhell hynny er mwyn gofalu bod y plant yn ddiogel.

Yn rhan o waith asesu'r llwybr cerdded, bydd y Cyngor yn asesu'r peryglon sy'n wynebu plant a'r rhieni/gwarcheidwaid sy'n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal ar amseroedd a dyddiau penodol pan fyddai disgwyl i'r disgyblion ddefnyddio'r llwybr. Byddwn ni'n rhoi ystyriaeth i faterion diogelwch y ffyrdd, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn nogfen Asesu Risg Llwybrau a Gerddir i'r Ysgol.

Yn unol â'r Canllawiau Gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, mae pob llwybr yn cael ei asesu yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod disgyblion yn cael eu hebrwng gan unigolyn cyfrifol yn ôl yr angen. Serch hynny, y rhiant sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen goruchwyliaeth ar blentyn ar ei daith ai peidio, a dylai'r rhiant/gwarcheidwad drefnu bod unigolyn cyfrifol yn teithio gyda'r plentyn os does dim modd iddyn nhw wneud hynny eu hunain.

Yn unol â'r polisi, byddwn ni'n adolygu'r llwybrau peryglus. Os bydd problem wedi'i hunioni a bod llwybr ar gael i'w ddefnyddio unwaith yn rhagor, efallai byddwn ni'n dileu unrhyw ddarpariaeth arall sydd wedi'i threfnu. Bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael o leiaf un tymor o rybudd ymlaen llaw os yw trefniadau cludiant dewisol o'r math yma yn cael eu tynnu'n ôl.

9.10 **Plant ag anghenion dysgu ychwanegol / anabledau**

Mae dalgylch y disgybl neu ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion neu ddsbarth cynnal dysgu agosaf yn cael ei bennu gan y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, a chaiff cludiant ei ddarparu ar sail y penderfyniad yma yn unig.

Rhaid i geisiadau ar gyfer cludiant ar sail pellter gael eu cyflwyno ar ôl i'r lle yn yr ysgol gael ei gadarnhau gan Banel ADY Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor. Mae manylion ar gael ar wefan y Cyngor:

www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionMyfyrwyr

Os bydd rhieni/gwarcheidwaid yn gwrthod cynnig am leoliad yn eu dalgylch neu ysgol arbennig, uned cyfeirio disgyblion neu ddsbarth cynnal dysgu agosaf, yna bydd y rhieni/gwarcheidwaid hynny'n gwbl gyfrifol am drefnu a thalu am gost cludiant i'r sefydliad maen nhw'n ei ddewis ar gyfer eu plentyn.

Cyn i'r ddarpariaeth briodol gael ei threfnu, bydd angen i rieni/gwarcheidwaid lenwi Ffurflen Gais am Gludiant ADY yma: www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionMyfyrwyr Does dim modd darparu cludiant nes bod yr wybodaeth yma wedi dod i law.

Efallai bydd hawl gan ddisgyblion sydd ag anabledau (yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010) i fanteisio ar gludiant o ysgol briodol / coleg priodol hyd yn oed os na fyddan nhw'n bodloni meini prawf y Cyngor ynghylch pellter cerdded diogel (gweler uchod). Rhaid bod ceisiadau yn cael eu hategu gan dystiolaeth feddygol briodol. Efallai y bydd y cymorth yn cynnwys cludiant o ddarpariaeth ar ôl yr ysgol. Bydd rhaid i Banel ADY Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor, neu un o'i Baneli Diogelu gymeradwyo unrhyw atgyfeiriadau ar gyfer y cymorth yma. Rhaid i unrhyw atgyfeiriadau o'r fath gael eu hategu gan dystiolaeth briodol a bydd pob achos yn cael ei ystyried ar sail angen unigol.

9.11 **Preswyliaid deuol**

Dim ond trefniadau byw sefydledig parhaol bydd eu hystyried, er enghraifft, disgybl sy'n aros dwy noson o bob wythnos ysgol gydag un person â chyfrifoldeb rhiant, a thair noson o bob wythnos ysgol gyda'r llall, neu wythnosau bob yn ail gyda phob rhiant. Dydy trefniadau o'r fath ddim yn berthnasol pan fydd disgyblion yn treulio penwythnosau gyda rhiant sy'n byw mewn lle gwahanol. Nosweithiau'r wythnos ysgol yw nos Sul / bore Llun tan nos Iau / bore Gwener.

Bydd angen i'r disgybl fodloni'r meini prawf sydd wedi'i nodi yn adran 9.2 er mwyn bod yn gymwys am gludiant i/o'r ail gartref.

9.12 **Cludiant am resymau meddygol**

Mae'n bosibl y bydd modd darparu cludiant am ddim i'r ysgol, ac yn ôl, am resymau meddygol pan fydd y disgybl yn dioddef o salwch cronig neu analluogrwydd dros dro am gyfnodau byrion, parhaus.

Rhaid i geisiadau gynnwys tystiolaeth sylfaenol ysgrifenedig yn seiliedig ar wybodaeth gweithiwr meddygol proffesiynol am y cyflwr a'r amgylchiadau. Rydyn ni'n derbyn tystiolaeth gan unrhyw un o'r gweithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig canlynol: Ymgynghorwyr arbenigol, Pediatregwyr, Seicolegwyr Clinigol, Seiciatryddion, Therapyddion Galwedigaethol, a Meddygon Teulu.

Rhaid i'r holl dystiolaeth fod wedi'i llunio o fewn 6 mis i'r cais.

Rydyn ni ond yn derbyn llythyrau neu adroddiadau gan Ysgolion a/neu Weithwyr Proffesiynol Gofal Cymdeithasol at ddibenion tystiolaeth ategol.

Bydd rhaid i bob cais nodi:

- **Natur y salwch neu'r analluogrwydd;**
- **Sut mae hyn yn effeithio ar deithio i'r ysgol;**
- **Maint yr effaith, er enghraifft, cyfnod disgwylidig.**

Mae'n bosibl na fydd y cludiant ar ffurf cerbyd penodol o gyfeiriad cartref y disgybl os oes modd gwneud newid rhesymol i arferion y Cyngor er mwyn diwallu anghenion penodol y disgybl e.e. dyrannu sedd ar fws ysgol arall dan gontract neu wasanaeth bws cyhoeddus.

Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun, ar sail argymhelliad swyddog meddygol, ac yn amodol ar gadarnhad gan Banel Cludiant Materion Meddygol y Cyngor. O roi caniatâd, bydd y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu yn rheolaidd.

9.13 Trefniadau cludo i Ysgolion cyfrwng Cymraeg ac Ysgolion Dwy Iaith

Does dim gofyn statudol i ddarparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwy iaith. Mae polisi cyfredol y Cyngor yn nodi bod disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwy iaith agosaf yn cael gwasanaeth cludiant am ddim yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch pellter a llwybrau diogel (gweler uchod).

9.14 Cludiant i Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig (Ffydd)

Does dim gofyn statudol i ddarparu cludiant i ysgolion gwirfoddol cymorthedig (ffydd). Polisi cyfredol y Cyngor yw bod disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wirfoddol gymorthedig agosaf o enwad y rhieni/gwarcheidwaid â'r hawl i gael cludiant am ddim yn unol â pholisi dewisol cytunedig y Cyngor ynglŷn â phellter cerdded a llwybrau diogel (gweler uchod).

Dydy hyn ddim yn berthnasol i ddisgyblion sydd ddim â hanes parhaus o fynychu ysgol wirfoddol gymorthedig o enwad crefyddol penodol.

9.15 Darpariaeth ar gyfer Myfyrwyr rhwng 16 ac 19 oed

Does dim gofyn statudol i ddarparu cludiant ar gyfer myfyrwyr ôl-16 oed. Mae polisi'r Cyngor yn nodi y bydd myfyrwyr ôl-16, sy'n bodloni'r maen prawf cymhwyster 3 milltir (fel sydd wedi'i nodi uchod) ond yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol/coleg/campws addas agosaf lle mae'r cyrsiau astudio 16 i 19 oed cymeradwy ar gael. Os yw'r un cyrsiau ar gael mewn nifer o ysgolion/gampysau, bydd cludiant am ddim ond yn cael ei ddarparu i'r ysgol/campws agosaf.

Mae'r polisi cludiant yma'n berthnasol i chweched dosbarth ysgolion a chyrtsiau mewn colegau amser llawn sydd wedi'u cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru yn unig. Dydy cyrsiau addysg uwch dan nawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('HEFCW') ddim yn gymwys.

Fydd cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer myfyrwyr y brif ffrwd y tu hwnt i'w hail flwyddyn academaidd ar ôl addysg orfodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall cludiant gael ei ddarparu tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y myfyriwr yn cael ei ben-blwydd yn 19 oed. Os bydd y myfyriwr yn penderfynu parhau i fynychu'r ysgol/coleg ar ôl hynny, ei gyfrifoldeb e/hi fydd y trefniadau teithio.

- **Myfyrwyr sy'n mynychu Chweched Dosbarth mewn Ysgol Brif Ffrwd**

Does dim angen i fyfyrwyr sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau yn eu hysgol bresennol ar ôl blwyddyn 11 (TGAU neu gymhwyster cyfatebol) gymryd unrhyw gamau pellach. Os bydd myfyrwyr yn penderfynu mynychu ysgol wahanol i gael mynediad i addysg ôl-16 oed, gan nad oes darpariaeth ôl-16 oed yn eu hysgol bresennol, bydd yr ysgol newydd yn cydlynu ceisiadau cludiant o'r fath ac yn rhoi gwybod i'r Uned Trafnidiaeth Integredig. Bydd hyn yn galluogi'r hawl i gludiant am ddim i gael ei asesu yn unol â'r polisi.

- **Myfyrwyr sy'n mynychu'r Coleg**

Bydd gofyn i ddisgyblion sydd am ddilyn cwrs coleg lenwi ffurflen gais ar-lein ar gyfer cludiant:

www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionMyfyrwyr

Bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu i fyfyrwyr ôl-16 oed sydd â hanes parhaus o fynychu ysgol wirfoddol gymorthedig (ffydd) o enwad crefyddol penodol, oni bai fod y cyrsiau astudio 16 i 19 oed cymeradwy ddim ar gael mewn sefydliad agosach.

Yn unol â pholisi dewisol cytunedig y Cyngor ynglŷn â phellter cerdded a llwybrau diogel (gweler uchod), efallai bydd modd trefnu cludiant ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau amser llawn cymeradwy yng ngholegau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Fro, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Coleg y Cymoedd (Ystrad Mynach), Futsal (Caerdydd) a Choleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant (Caerdydd).

Mae manylion am y rhaglenni addysgol cymeradwy ar gael oddi wrth;

Y Garfan Gwella Ysgolion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon CF45 4SN

Efallai bydd myfyrwyr ôl-16 oed yn gymwys am Lwfans Cynhaliath Addysg, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, a'i weinyddu ar ei rhan gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Pwrpas Lwfans Cynhaliath Addysg yw cynorthwyo myfyrwyr ôl-16 oed i gael mynediad at addysg ôl-16. Mae rhagor o fanylion ynghylch pennu cymhwyster ar gyfer y Lwfans ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru

www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk/ab/lca

Rhoddir tocynnau bws i bob disgybl/myfyriwr cymwys. Pan fydd disgyblion/myfyriwr yn cael eu cludo drwy'r rhwydwaith bysiau cyhoeddus lleol, darperir tocynnau electronig ar sail ap. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol ac ar gais y darperir tocynnau papur.

Os bydd myfyriwr/disgyblion dewis peidio â dilyn cwrs addysg bellach yn y chweched dosbarth neu goleg, neu'n penderfynu rhoi'r gorau i'w cwrs, fe ddylai'r tocynnau teithio gael eu hanfon yn ôl i'r Uned Trafnidiaeth Integredig. O beidio â gwneud hynny, byddwn ni'n adennill costau'r cludiant.

Mae gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus hefyd ar gael ar wefan Traveline Cymru www.cymraeg.traveline.cymru Mae modd i'r rheiny rhwng 16 a 21 oed arbed tua 30% oddi ar gost teithiau bws gyda fyngherdynteithio. Gwnewch gais ar-lein yn www.fyngherdynteithio.llyw.cymru

9.16 **Darpariaeth ar gyfer myfyriwr 16-19 oed sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Polisi cyfredol y Cyngor yw darparu cludiant am ddim ar gyfer myfyriwr ôl-16 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol y mae eu cartrefi yn 2 filltir, neu'n bellach na hynny, o'r ysgol/dosbarth/coleg arbennig agosaf lle mae'r cyrsiau cymeradwy yn cael eu hastudio, tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fyddan nhw'n cael eu pen-blwyddi yn 19 oed. Os bydd y myfyriwr yn penderfynu parhau i fynychu'r ysgol/coleg ar ôl hynny, bydd y trefniadau cludo yn ôl disgrisiwn yr ysgol/coleg. Cyn ichi ymrestru â'r coleg, cysylltwch â'r Gwasanaethau Myfyriwr i gadarnhau trefniadau teithio. Os oes lle gwag ar gael i brynu sedd ar lwybr cludiant ysgol presennol dan gontract, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheiny sydd o dan 25 oed.

Fydd y Cyngor ddim yn darparu cludiant ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn y flwyddyn academaidd ddilynol ar ôl iddyn nhw droi'n 19 oed. Lle bo'r cwrs yn parhau wedi hynny, y myfyriwr fydd yn gyfrifol am drefnu'i gludiant, a thalu amdano.

9.17 **Hyfforddiant Teithio'n Annibynnol**

Mae Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor yn darparu hyfforddiant Teithio'n Annibynnol i ddisgyblion/myfyriwr i'w galluogi i gerdded i'r ysgol/coleg neu deithio'n annibynnol ar gludiant cyhoeddus lleol/dan gontract.

Darperir hyfforddiant Teithio'n Annibynnol am ddim ar sail un i un neu yn rhan o grŵp. Mae'r hyfforddiant yn helpu'r disgyblion/myfyriwr i feithrin ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd a gwybodaeth am sut i deithio i'r ysgol neu'r coleg, naill ai drwy gerdded neu ar drafnidiaeth dan gontract/gyhoeddus. Byddan nhw'n derbyn y cymorth angenrheidiol i deithio'n annibynnol. Mae modd i hyn gynnwys pethau fel deall sut i ddefnyddio tocynnau bws, amserlenni ac arian lle bo hynny'n briodol.

Mae modd i hyfforddiant llwyddiannus alluogi unigolion feithrin sgiliau hanfodol sy'n hyrwyddo annibyniaeth a manteisio ar addysg bellach, cyflogaeth a chyfleoedd hamdden yn y dyfodol. Er mwyn i'r hyfforddiant lwyddo, mae angen i rieni/warcheidwaid fod yn gefnogol a chyfrannu at y rhaglen hyfforddi hefyd.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd tacsis yn cael eu darparu i ddisgyblion/myfyriwr ag ADY, a hynny ar ôl cael tystiolaeth feddygol ategol (gweler adran 9.12) neu gymeradwyaeth gan y Grŵp ADY Ôl-16. Bydd peidio â chymryd rhan mewn hyfforddiant Teithio'n Annibynnol yn arwain at dynnu'r cynnig am gludiant i'r ysgol neu goleg yn ôl.

I gael rhagor o fanylion am y rhaglen hyfforddiant Teithio'n
www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionaMyfyriwr

9.18 **Asesu Cymhwysedd a Phellter**

Does dim prawf modd i bennu a yw myfyriwr yn gymwys i gael cludiant neu beidio. Yr unig feini prawf yw'r pellter o'r cartref i'r gât ysgol agosaf sy'n agor neu'r asesiad o lwybrau diogel (gweler uchod). Dyma sut byddwn ni'n asesu hawl yr unigolyn i gludiant am ddim. Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r disgyblion a'u rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â'r trefniadau ymlaen llaw, cyn i'r trefniadau ddod yn weithredol.

Dydy'r pellter ar hyd llwybr gyrru ddim yn dangos mesuriad manwl gywir. Dydy mesuriadau ar sail ardaloedd codau post ddim yn fanwl gywir chwaith. Wrth fesur llwybr cerdded, bydd mesuriad y Cyngor yn cynnwys tri lle degol. Mae'n defnyddio'r rhaglen MapInfo Professional, sy'n mesur llwybrau ar sail data Arolwg Ordans safonol y Llywodraeth. Mae'r rhaglen yma'n pennu pwyntiau cyfeiriad drwy ddefnyddio cod daearyddol chwe digid, sy'n gywir i 1m, ac sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol fel y data mwyaf cywir sydd ar gael. Er mwyn pennu'r ysgol addas agosaf, y Cyngor fydd yn penderfynu pa lwybr yw'r un mwyaf addas a'r un fydd yn cael ei ddefnyddio wrth fesur. Gall hyn gynnwys llwybrau, ffyrdd neu gyfuniad o'r rhain.

Mesuriad y Cyngor fydd y pellter terfynol a di-ddadl a chaiff hwn ei ddefnyddio i asesu hawl i gludiant. Fydd mesuriadau o'r fath ddim yn cynnwys dreifiau preifat na ffyrdd heb eu mabwysiadu sydd ddim yn cael eu cynnal gan y Cyngor. Os daw hi i'r amlwg fod y Cyngor wedi darparu cludiant am ddim trwy gamgymeriad, fe gaiff y rhiant/gwarcheidwad wybod am hyn, ynghyd â nodyn sy'n hysbysu y bydd y cludiant yn cael ei dynnu'n ôl ar ddiwedd y tymor.

Mae unrhyw ymgais i gael mantais drwy ddarparu gwybodaeth ffug yn fater difrifol a bydd y Cyngor yn ymchwilio i honiadau/ceisiadau twyllodrus. Os byddwn ni'n cynnig cludiant ysgol/ coleg, ac yna'n darganfod bod y cynnig wedi'i wneud ar sail gwybodaeth dwyllodrus neu gamarweiniol, e.e. cyfeiriad ffug/anghywir neu ddyddiad geni anghywir, byddwn ni'n tynnu'r cynnig hwnnw yn ôl ac yn adennill cost y cludiant. Gallai hyn beri gofid sylweddol, yn arbennig i'r plentyn.

Bydd y Cyngor yn prosesu'r wybodaeth sy'n cael ei darparu gan rieni/warcheidwaid yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data. Bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Bydd hi ar gael i'w gweld a'i defnyddio gan y bobl sydd angen gwneud hynny yn unig. Mae'n bosibl bydd yr wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn cael ei rhoi i unrhyw sefydliad, gan gynnwys adrannau eraill y Cyngor, os ydyn nhw'n ymchwilio yn gyfreithlon i honiadau o dwyll, troseddau eraill neu faterion yn ymwneud â diogelu plant. Mae'n bosibl y bydd yr wybodaeth byddwch chi wedi'i nodi yn cael ei chroeswrio a'i gwireddu gydag unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chadw gan adrannau eraill y Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor a Hysbysiad Preifatrwydd y Gwasanaeth Trafnidiaeth ar wefan y Cyngor www.rctcbc.gov.uk/DataProtection

9.19 **Tocyn teithio ar y bysiau**

Bydd tocyn teithio yn cael ei anfon at bob disgybl ysgol uwchradd awdurdodedig ar ddechrau Blwyddyn 7. Bydd y tocynnau'n parhau'n ddilys hyd ddiwedd amser y disgyblion yn yr ysgol uwchradd brif ffrwd. Bydd tocynnau teithio yn cael eu hanfon at fyfyrwyr coleg ar ddechrau eu cwrs. Byddan nhw'n ddilys am un flwyddyn academaidd yn unig. Os bydd myfyriwr yn gadael y coleg cyn diwedd y flwyddyn academaidd, rhaid anfon y tocyn yn ôl neu fe fydd y Cyngor yn adennill cost y tocyn. Os bydd myfyriwr yn mynd i'r coleg am yr ail flwyddyn, rhaid iddo/iddi gyflwyno cais am docyn unwaith eto.

Mae'r tocynnau bws i'w defnyddio ar wasanaethau dan gontract mewn lliw sy'n cyd-fynd â'r arwydd lliw sydd i'w gweld yn ffenestr flaen pob bws ysgol. Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi – dim tocyn, dim teithio. Mae disgwyl i ddisgyblion/myfywrwyr gyflwyno'u tocyn i'r gyrrwr ei weld ar bob taith. Does neb yn eithriad, ac mae rhaid i rieni/warcheidwaid sicrhau bod y tocyn dilys gyda'u mab/merch cyn gadael y cartref. Bydd modd cyflwyno tocyn newydd am bris bach os bydd un yn mynd ar goll. Bydd y pris yn cael ei adolygu'n flynyddol. Mae manylion ar gael ar wefan y Cyngor www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionMyfywrwyr

Bydd disgyblion sy'n rhannu eu tocynnau neu'n gadael i ddisgyblion eraill eu copïo yn cael eu hatal rhag teithio ar y bws ysgol. Os oes hawl gan y disgyblion yma i ddefnyddio'u tocynnau ar rwydweithiau cludiant cyhoeddus, yna efallai y bydd y cwmni bws hefyd yn cymryd camau gweithredu. Mae'n bosibl y bydd y cwmni yn cysylltu â'r Heddlu.

Rhaid cysylltu ag Uned Trafnidiaeth Integredig y Cyngor bob tro os bydd problemau wedi'u codi ynglŷn â gweithredu'r polisi 'dim tocyn, dim teithio' gan y cwmnïau bysiau neu'r ysgolion. Peidiwch â thrafod y mater gyda'r gyrrwr neu'r cwmni sy'n darparu'r cludiant.

Fyddwn ni ddim yn rhoi tocynnau teithio i ddisgyblion ysgol gynradd. Bydd eu henwau yn cael eu gwirio yn erbyn rhestr wrth iddyn nhw ddod ar y bws.

Mae tocynnau bws ar gyfer disgyblion/myfywrwyr cymwys sy'n teithio ar y rhwydwaith bysiau cyhoeddus lleol yn cael eu hanfon drwy'r ap. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol ac ar gais y darperir tocynnau papur.

9.20 **Dull Cludo**

Defnyddio adnoddau'n effeithlon fydd yr ystyriaeth ar gyfer pennu'r dull cludo (yn amodol ar ofynion anghenion arbennig) ym mhob achos. Mae'n bosibl mai dan amodau gwasanaethau cludiant ysgol dan gytundeb, neu wasanaethau cludiant cyhoeddus cyfredol bydd plant yn cael eu cludo i'r ysgol. Bydd y ffactorau yma, ynghyd â maint a math y cludiant (bws, bws mini, trên, tacsï ac ati) yn dibynnu ar effeithiolrwydd cost.

Mewn achosion eithriadol byddwn ni'n cynnig ad-dalu'r disgybl neu'r rhiant, os dyma'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o ddarparu cludiant. Mae Adran 88 Deddf Trafnidiaeth 1985 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdodau

Lleol i sicrhau, er budd ei drigolion lleol, eu bod nhw'n cael y gwerth gorau am arian gyda golwg ar wariant ar drafnidiaeth gyhoeddus at ei gilydd. Am hynny, bydd y Cyngor yn cadw'r ddyletswydd yma mewn cof wrth fynd ati i ddarparu gwasanaethau bysiau a threnau (trafnidiaeth gyhoeddus) sydd eu heisiau ar gyfer y gymuned a darparu cludiant ar gyfer disgyblion.

9.21 Hyd y teithiau

Dyw'r Cyngor ddim yn nodi terfyn amser ar gyfer teithiau. Serch hynny, fe ddylai hyd teithiau fod yn rhesymol, gan gymryd i ystriaeth oedran ac anghenion unigol y disgyblion, a natur, diben ac amgylchiadau pob taith. Mewn achosion lle mae rhieni/gwarcheidwaid wedi dewis anfon eu plentyn i ysgol gymorthedig wirfoddol (ffydd) neu ysgolion dwy iaith / ysgolion Cymraeg sy'n weddol bell o'u cartref, efallai bydd hynny'n golygu teithiau hwy. Bydd hyn yn berthnasol i rai teithiau ADY hefyd.

9.22 Teithwyr sy'n Prynu Tocyn

Bydd y Cyngor yn arfer ei hawl, yn ôl yr awdurdod priodol, i gynnig y lleoedd gwag ar gerbydau sydd dan gontract ysgol eisoes i blant sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf i gael cludiant am ddim.

Os bydd y disgybl eisoes wedi manteisio ar yr opsiwn yma, bydd y Cyngor yn anfon llythyr ato yn ystod tymor yr haf ynglŷn â'r broses gwneud cais. Bydd y llythyr yma yn nodi'r dyddiad cynharaf ar gyfer gwneud cais. Fel arfer, y dyddiad yma fydd y dydd Llun cyntaf ar ôl i dymor yr haf ddod i ben. Fydd ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno cyn y dyddiad yma ddim yn cael eu hystyried.

Fydd llenwi ffurflen gais ddim yn gwarantu y bydd seddi gwag yn cael eu gwerthu. Dim ond os bydd seddi ar gael y bydd modd eu gwerthu. Ar ôl cael gwybod bod seddi ar gael, a faint ohonyn nhw sydd, byddwn ni'n eu gwerthu nhw ar sail cyntaf i'r felin. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod gwerthu sedd, pe bai un ar gael, i unrhyw gwsmer y mae'n canfod ei fod yn defnyddio cludiant ysgol heb hawl, ac nad oes sedd wedi'i gwerthu iddo/iddi ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

Dydy hi ddim bob amser yn bosibl dyrannu seddi cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf gan fod rhaid i'r Cyngor asesu faint o seddi gwag sydd. Mae hynny hefyd yn cynnwys newidiadau yn dilyn penderfyniad rhai disgyblion i adael yr ysgol ar ôl derbyn canlyniadau'u harholiadau tua diwedd Awst, yn ogystal â newid yn y galw oherwydd dechreuwyr newydd. Yn ogystal â hynny, bydd rhai seddi gwag ar ôl yr wythnosau cyntaf gan na fydd rhai disgyblion yn manteisio ar eu hawl i gael cludiant am ddim. Pan fyddwn ni'n cael y darlun cyflawn, yna bydd modd i ni werthu'r seddi gwag.

Pan fydd seddi gwag ar gael dan y ddarpariaeth yma, bydd y gost yr un peth i bob disgybl ac yn daladwy yn flynyddol. Bydd gofyn talu ymlaen llaw ac mae'r gost yn cael ei hadolygu bob blwyddyn. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae ymgeisydd yn talu am gludiant dros gyfnod sy'n llai na thymor llawn/cyfan, bydd rhaid talu'r gost lawn am yr hanner tymor cyfan o leiaf.

Byddwn ni'n ad-dalu'r gost pan fydd y tocyn yn cael ei ddychwelyd neu, ar gyfer cludiant ysgol gynradd, pan fyddwch chi'n dweud wrth yr uned nad oes angen y sedd bellach.

Os bydd disgyblion sydd wedi prynu sedd yn camymddwyn wrth deithio ar gludiant ysgol/coleg, bydd eu hawl i gael cludiant yn cael ei dynnu oddi arnyn nhw am gyfnod penodol a fydd ad-daliad ddim yn cael ei roi.

Fydd dim gostyngiad ar gyfer presenoldeb rhan-amser. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r disgyblion ystyried a fyddai defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn opsiwn mwy cost effeithiol. Bydd modd i'r rheiny rhwng 16 a 21 oed arbed tua 30% ar eu cludiant gyda 'fyngherdynteithio'. Cyflwynwch gais ar-lein yma: fyngherdynteithio.llyw.cymru

9.23 Dulliau Talu

Fel arfer, byddwn ni'n cymryd taliad llawn am sedd ar lwybr sydd dan gontract. Os bydd cadarnhad bod sedd wag ar gael i'w phrynu, rhaid i ymgeiswyr sydd am dalu trwy randaliadau ysgrifennu at yr:

Uned Trafnidiaeth Integredig

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen
Tŷ Glantaf, Uned B23, Heol Ffynnon Taf,
Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd CF37 5TT**

neu drwy e-bost:

CludoDisgyblion@rctcbc.gov.uk

Gallwch wneud taliadau gan ddefnyddio'r dulliau isod unwaith y bydd yr Uned Trafnidiaeth Integredig wedi cadarnhau bod sedd ar gael:

- **Cerdyn Debyd neu Gredyd ar-lein, neu drwy Uned Trafnidiaeth Integredig neu Ganolfan Alwadau'r Cyngor.**
- **Arian parod neu siec yn unrhyw un o ganolfannau iBobUn y Cyngor.**

Os bydd anhawster o ran casglu taliadau, bydd hawl gan y Cyngor i gwtogi ar y dulliau talu a'r amserlen talu fydd yn cael eu cynnig yn y dyfodol, er enghraifft, mae'n bosibl bydd eisiau talu'n llawn cyn i'r Cyngor roi tocyn teithio.

Bydd polisi safonol y Cyngor o ran dyledion yn berthnasol i bob anfoneb fydd yn cael ei chodi am brynu sedd ar gludiant ysgol/coleg.

Os bydd arian yn weddill i'w dalu, byddwn ni'n anfon llythyr at y rhiant/gwarcheidwad yn gofyn am daliad ac yn nodi y byddwn ni'n canslo'r tocyn ac yn atal y disgybl rhag teithio oni bai eu bod nhw'n talu'r ddyled o fewn saith diwrnod. Fydd dim modd i'r disgybl ddefnyddio'r tocyn eto nes bydd y ddyled wedi'i thalu. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei broses adfer dyledion arferol i fynd ati i adfer unrhyw gostau sy'n ddyledus.

Fyddwn ni ddim yn caniatáu i unrhyw aelod o deulu sydd â dyledion yn weddill o ran cludiant ysgol/coleg brynu sedd ar lwybr o dan gontract yn y dyfodol.

9.24. **Teuluoedd sy'n symud tŷ – Trefniadau Cludo**

Fel rheol, bydd disgyblion sy'n cael teithio'n rhad ac am ddim eisoes, y mae'u teuluoedd yn symud i fyw y tu allan i ardal leol yr ysgol/coleg maen nhw'n ei m/fynychu, yn cael eu hasesu yn unol â'r meini prawf.

Rhaid i deuluoedd gadw hynny mewn cof os byddan nhw'n ystyried symud cartref, yn enwedig ar ôl i'r disgybl ddechrau cyrsiau sydd ag arholiadau ffurfiol ar y diwedd (blwyddyn 10 ac 11 ar gyfer TGAU neu gyfwerth, a blwyddyn 12 a 13 ar gyfer cyrsiau uwch gyfrannol a safon uwch neu gyfwerth).

9.25 **Monitro**

Bydd DVSA, neu gorff addas arall, yn cynnal hap-archwiliadau ar y cerbydau i gyd. Bydd y Cyngor yn ymchwilio i unrhyw gwynion sy'n dod i sylw'r Cyngor am y gwasanaethau neu'r cerbydau ar unwaith. Os bydd cwyn yn cael ei chadarnhau, byddwn ni'n bwrw ati ar unwaith i gymryd y camau angenrheidiol a phriodol yn unol â thelerau'r cytundeb. Bydd y Cyngor yn cynnal hap-archwiliadau ynglŷn â chytundebau er mwyn gofalu eu bod nhw'n gweithredu yn unol â thelerau ac amodau'r cytundeb.

Yn rhan o'r gwaith monitro, byddwn ni'n rhoi sylw i faterion parthed prydlondeb, cadw at y llwybr teithio, maint y cerbyd, trwyddedau, cadarnhau cefndir staff (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) a gwirio tocynnau teithio. Mae'r camau yma i ofalu bod y daith yn un ddiogel a hwylus.

9.26 **Cod Ymddygiad wrth Deithio – Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno "Cod Ymddygiad wrth Deithio". Nod y ddogfen ydy hyrwyddo teithiau diogel ar gyfer y plant a phobl ifainc i gyd, trwy bennu'r safonau ymddygiad hynny sy'n ofynnol wrth deithio rhwng y cartref a'r ysgol/coleg. Mae'r Cod Ymddygiad yn annog ysgolion/colegau a'r Cyngor i fynd ati i weithio'n rhagweithiol gyda disgyblion, eu rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Mae'n orfodol gwisgo gwregys diogelwch ar gludiant ysgol prif ffrwd/coleg penodol. Rydyn ni'n gofyn i rieni/warcheidwaid bwysleisio pwysigrwydd gwisgo gwregys diogelwch i'w plant. Os ydy disgyblion yn camymddwyn wrth gael eu cludo ac yn ymddwyn yn groes i'r Cod Ymddygiad, mae'n bosibl y bydd yr hawl i ddefnyddio'r cludiant yn cael ei dynnu oddi arnyh nhw am gyfnod penodol, yn ddibynnol ar ba mor ddifrifol yw'r achos. Mae'n bosibl bod systemau Teledu Cylch Cyfyng ar waith ar gludiant ysgol/coleg. Mae'r hyn sy'n cael ei ffilmio yn gyfrinachol ond mae'n bosibl ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn achosion o gamymddwyn. Os bydd disgybl yn achosi unrhyw ddifrod i'r cerbyd, bydd hi'n bosibl i'r cwmni hawlio'r gost o'i adfer.

9.27 **Profiad Gwaith**

Pan fo disgyblion/myfyrwyr yn mynd am gyfnod o brofiad gwaith yn rhan o gwrs, eu cyfrifoldeb nhw yw trefnu cludiant. Fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim yn gyfrifol am y cludiant.

9.28 **Argaeledd a Hygyrchedd y Datganiad Polisi yma**

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 yn gofyn bod y Cyngor yn sicrhau bod y polisi, gwybodaeth a threfniadau o ran cludo disgyblion ar gael i ddisgyblion (a'u rhieni / gwarcheidwaid) cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol neu'r coleg, ac ar gais. Yn ogystal â hynny, rhaid darparu copïau yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn ysgolion, colegau a llyfrgelloedd yn Rhondda Cynon Taf. Caiff yr wybodaeth ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd, sef www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionaMyfyrwyr

9.29 **Adborth**

Mae'r Cyngor yn ymroi i glywed eich sylwadau er mwyn gwella safon ei wasanaethau. Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Os oes sylwadau gyda chi ar gynnwys y ddogfen yma, cysylltwch â:

Uned Trafnidiaeth Integredig

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Gwasanaethau Rheng Flaen
Tŷ Glantaf, Uned B23, Heol Ffynnon Taf, Ystad Ddiwydiannol Trefforest
Pontypridd, CF37 5TT

☎ 01443 425001

✉ CludoDisgyblion@rctcbc.gov.uk

✉ TrafnidiaethColeg@rctcbc.gov.uk

9.30 **Rhagor o wybodaeth a dolennau cyswllt ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth gyda chludiant**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin, llwybrau'r bysiau dan contract a'r manau codi, ar gael ar wefan y Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/CludoDisgyblionaMyfyrwyr

Manylion cyswllt:

Gwasanaethau i Fyfyrwyr Coleg y Cymoedd

☎ 01443 662800

www.colegycymoedd.ac.uk

Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant Rhondda Cynon Taf

Materion Derbyn i'r Ysgol:

☎ 01443 281111

✉ DerbynDisgyblion@rctcbc.gov.uk

Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen

Uned Trafnidiaeth Integredig:

☎ 01443 425001

✉ CludoDisgyblion@rctcbc.gov.uk

Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned Rhondda Cynon Taf
Carfan Ymgysylltiad a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS):
☎ 01443 744000

Ffynonellau eraill o wybodaeth:

Gyrfa Cymru

www.careerswales.com

Prosbectysau Ysgolion / Colegau Unigol

Traveline Cymru

Gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus

☎ 0800 464 0000

www.traveline.cymru

Llywodraeth Cymru

- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Teithio gan Ddysgwyr – Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol – Mehefin 2014

fyngherdynteithio

Mae modd i bobl ifainc 16-21 oed arbed 30% ar eu tocynnau bws
fyngherdynteithio.llyw.cymru

Y Cod Ymddygiad wrth Deithio

10. Polisiau Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig a Rheoledig (o dan adain yr eglwysi)

Cefndir

Mae 8 ysgol wirfoddol gymorthedig, sy'n cael eu hariannu i raddau helaeth gan yr Awdurdod Lleol, yn Rhondda Cynon Taf. Maen nhw'n cael eu trefnu a'u gweinyddu, fodd bynnag, gan Awdurdod Addysg Esgobaethol un ai'r Eglwys yng Nghymru neu Eglwys Gatholig Rhufain ar y cyd â'r Awdurdod.

Dyma nhw:

- Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru
- Ysgol Gynradd y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain
- Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain
- Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain
- Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain
- Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain
- Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru

Mae'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgolion yma wedi'u llunio gan gyrff llywodraethu'r ysgolion mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu perthnasol yw'r ceisiadau derbyn. Mae manylion y polisiau derbyn ar gyfer yr ysgolion yma i'w gweld isod.

Apeliadau

Mae gofyn i chi gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad ynghylch derbyn disgyblion i'r ysgol yn uniongyrchol i'r corff llywodraethu yn achos Ysgolion Gwirfoddol Cymorthedig. Mae modd gwneud hynny trwy anfon llythyr ar gyfer sylw'r Clerc i'r Corff Llywodraethu a'i anfon e i'r ysgol dan sylw.

10.1 Polisiâu Ysgolion Cynradd

Ysgol Gynradd Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru

Mae Ysgol Gynradd Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru yn ysgol gynradd oriau dydd cyfrwng Saesneg, gydaddysgol gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae hi hefyd yn derbyn cymorth gwirfoddol.

Polisi Derbyn

Dylai rhieni a gwarcheidwaid wybod bod addysg grefyddol ac addoliad yn digwydd yn unol ag athrawiaeth ac ymarferion yr Eglwys yng Nghymru. Mae croeso i rieni sy'n awyddus i anfon eu plant i'r ysgol ymweld â'r safle cyn cyflwyno cais ffurfiol. Ffoniwch yr ysgol ymlaen llaw er mwyn trefnu apwyntiad. Caiff rhieni gofrestru'u dymuniad i'w plentyn fynychu'r ysgol ar unrhyw adeg. Bydd rhestr aros yn cadw'r wybodaeth yma nes bydd hawl gyda'r plentyn i gael ei dderbyn. Fydd hyn ddim yn rhoi'r hawl ddi-gwestiwn iddo fe i gael lle. Pan fydd yr ysgol yn llawn, bydd y meini prawf ynghylch derbyn plant isod yn cael eu cymhwyso ym mhob achos:

Meini prawf i'w cymhwyso pan fydd yr ysgol yn llawn:

Pe bai'r ysgol yn derbyn rhagor o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, byddai hi'n blaenoriaethu ceisiadau fel a ganlyn:

1. Plant sy'n Derbyn Gofal (sydd dan ofal yr Awdurdod Lleol)
2. Plant o deuluoedd sy'n aelodau o'r Eglwys yng Nghymru (Byddwn ni'n gofyn i offeiriad plwyf ynghylch hyd a lled eich cysylltiad â'r Eglwys)
3. Plant sydd â brodyr neu chwiorydd sy'n mynychu'r ysgol yn barod (Mae hyn yn cynnwys hanner brodyr a chwiorydd neu frodyr neu chwiorydd mabwysiedig)
4. Plant eraill sy'n mynychu Eglwysi Cristnogol eraill
5. Plant eraill y mae eu rhieni yn dymuno iddyn nhw gael eu haddysg mewn Ysgol Eglwys yng Nghymru

Fyddwn ni ddim yn cynnig lleoedd ar sail meini prawf dewis a dethol disgyblion drwy gynnig arholiadau, gwirio adroddiadau ysgol neu gynnal cyfweiliadau gyda'r disgyblion (gyda neu heb fod y rhieni'n bresennol) i ddibenion asesu gallu neu addasrwydd; ond efallai byddwn ni'n cynnig lleoedd ar sail ymrwymiad i'r Eglwys.

Pe bai gormod o alw am lleoedd gan ddisgyblion 'Eglwysig' sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, byddai'r ysgol yn rhoi'r lleoedd gwag i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Yma, y pellter agosaf yw'r llwybr cerdded byrraf a mwyaf diogel rhwng y cartref a'r ysgol.

Gweithdrefn Cyflwyno Apêl:

Mae gan deuluoedd y mae eu cais wedi'i wrthod yr hawl i gyflwyno apêl. Pan fo cais yn cael ei wrthod a does dim modd datrys y mater yn anffurfiol, bydd hawl cyflwyno apêl i Bwyllgor Apeliadau sydd wedi'i sefydlu'n arbennig. Yna, bydd modd trefnu bod panel annibynnol yn ystyried y cais. Mae hyn yn cael ei weinyddu gan Fwrdd Addysgol Esgobaeth Llandaf, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau yn erbyn Derbyn Disgyblion i Ysgolion.

Rhaid i ymholiadau yn ymwneud â'r broses derbyn i Ysgol Gynradd Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru gael eu cyflwyno i'r Pennaeth yn gyntaf. Bydd y Pennaeth efallai'n trosglwyddo'r ymholiad i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

Pennaeth:

Mrs Catrin Walters
sgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru, Stryd y Gwynt,
Aberdâr, CF44 0SD

Cadeirydd y Corff
Llywodraethu

Mrs J.M.Close
Ysgol Gynradd Tref Aberdâr yr Eglwys yng Nghymru

Polisi Derbyn Disgyblion Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru

Mae Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru yn ysgol wirfoddol a gynorthwyr ym mhentref Cwm-bach ar gyrion Aberdâr. Rydyn ni'n darparu cwricwlwm eang a chytbwys wedi'i deilwra i anghenion disgyblion unigol, a fydd yn galluogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn dwf. Rydyn ni hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod pob disgybl yn datblygu brwdfrydedd a chariad tuag at ddysgu.

Gweithdrefnau Derbyn

Caiff disgyblion ddechrau yn Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru yn ystod y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn derbyn disgyblion i'r ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn os oes lle yn y dosbarth priodol. Mae rhieni sy'n dymuno anfon eu plant i Ysgol Gynradd Cwm-bach yr Eglwys yng Nghymru yn derbyn ffurflen gais yn ystod tymor yr hydref ar gyfer plant sydd i ddechrau'r ysgol yn ystod y mis Medi canlynol. Mae gofyn bod rhieni yn anfon y ffurflen yn ôl erbyn dyddiad penodol, ac os nad yw nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y lleoedd sy ar gael, bydd pob plentyn yn cael cynnig lle.

Ceisiadau hwyr

Fydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn ar ôl y dyddiad cau ddim yn cael eu hystyried nes bod cynigion yn cael eu hanfon at y rhieni/gwarcheidwaid hynny a anfonodd geisiadau o fewn yr amser penodol, a bod ymateb y rhieni/gwarcheidwaid i'r cynigion hynny wedi cael eu derbyn. Golyga hyn, os yw'r ysgol yn llawn a bod cais hwyr yn bwrw maen prawf uwch na'r rheiny sydd wedi cael cynnig, bydd y cais yn dal i fod yn aflwyddiannus.

Apelio

Mae gan rieni/gwarcheidwaid sydd ddim yn cael cynnig lle i'w plentyn yr hawl i gyflwyno apêl i bwyllgor apeliadau annibynnol o dan y Ddeddf Addysg. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn annibynnol, sydd wedi'i weinyddu gan Fwrdd Addysgol Esgobaeth Llandaf, yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau yn erbyn Derbyn Disgyblion i Ysgolion.

Meini prawf derbyn disgyblion pan fydd yr ysgol yn llawn

Mae Gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth yn diffinio bod yr ysgol wedi'i sefydlu ar gyfer plant Plwyf Cwm-bach gydag oddeutu 30 ym mhob un dosbarth. Unwaith bod y cyfanswm yn bwrw'r uchafswm o 30 fesul grŵp blwyddyn, mae'r meini prawf canlynol yn cael eu gweithredu:

- Plant sy'n 'Derbyn Gofal' neu blant sydd â Datganiad o Angen Addysgol, pan enwir yr ysgol fel y lleoliad mwyaf addas;
- Plant i rieni sy'n Gristnogion mewn gair a gweithred, sy'n aelodau o'r Eglwys yng Nghymru;
- Plant i rieni sy'n Gristnogion mewn gair a gweithred, sy'n mynychu eglwysi enwadau Cristnogol eraill;
- Plant sydd â brodyr neu chwiorydd yn yr ysgol eisoes;
- Plant y mae eu teuluoedd yn dymuno iddyn nhw gael eu haddysg mewn ysgol Eglwys yng Nghymru;
- Plant eraill, yn ôl disgrisiwn y corff llywodraethu sy'n gweithredu yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Genedlaethol.

Mae Llywodraethwyr yn disgwyl i blant sy'n cael eu derbyn i'r ysgol gymryd rhan lawn mewn Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. Serch hynny, mae hawl gan rieni i dynnu plentyn o Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd.

Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain

Mae Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol wirfoddol gymorthedig, sy'n gweithredu o dan ymddiriedolaeth archesgobaeth Caerdydd. Fel rheol, mae Ysgol Gynradd y Santes Fererid yn derbyn plant rhwng 3 ac 11 oed.

Gweithdrefnau Derbyn

Mae disgyblion yn cael eu derbyn yn ystod y tymor yn dilyn eu pen-blwyddi'n 3 oed ac mae llefydd cyn-fethrin/ meithrin amser llawn ar gael i ddisgyblion. Mae'n bosibl y byddwn ni hefyd yn derbyn disgyblion i'r ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn os oes lle yn y dosbarth priodol.

Mae croeso i rieni sydd am gofrestru plentyn yn Ysgol y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain ddod i ymweld â'r ysgol cyn cyflwyno cais ffurfiol. Ffoniwch yr ysgol i drefnu apwyntiad. Caiff rhieni gofrestru eu plentyn ar unrhyw adeg. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw ar restr aros nes bod y plentyn yn gymwys i gael ei dderbyn. Fydd hyn ddim yn rhoi'r hawl ddi-gwestiwn i'r plentyn i gael lle. Mae'r meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn isod.

Nifer Derbyn

Nifer Derbyn yr ysgol ydy 20.

Meini prawf derbyn disgyblion pan fydd yr ysgol yn llawn

Pan fydd nifer y ceisiadau uwchlaw'r nifer derbyn, bydd llefydd yn cael eu dyrannu o dan y categorïau isod gan roi blaenoriaeth fel a ganlyn:

1. Plant sy'n derbyn gofal (gofal cyhoeddus) o'r ffydd Gatholig.
2. Plant sy'n derbyn gofal (gofal cyhoeddus).
3. Plant sy wedi'u bedyddio y mae'u rhieni sy'n Gatholigion yn byw ym mhlwyf Sant Joseff, Aberdâr, Santes Therese o Lisieus, Hirwaun a Sant Ioan Kemble, Glyn-nedd. Mae map o'r ardal ar gael ar gais.
4. Plant sy wedi'u bedyddio y mae'u rhieni sy'n Gatholigion mewn gair a gweithred yn byw mewn plwyfi cyfagos i'r rhai sydd wedi'u nodi uchod, gyda chaniatâd offeiriad eu plwyfi.
5. Brodyr neu chwiorydd plant sy'n mynychu'r ysgol yn barod. (e.e. brawd neu chwaer, hanner brawd/chwaer, brodyr/chwiorydd wedi'u mabwysiadu/maethu).
6. Plant eraill sydd wedi'u bedyddio.

I wneud cais, rhaid llenwi ffurflen sydd ar gael o swyddfa'r ysgol.

Os nad oes modd i'r llywodraethwyr roi lle i bob ymgeisydd o fewn categori penodol, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol gan ddilyn y llwybr mwyaf diogel o ddrws ffrynt cartref y plentyn i brif gatiâu'r ysgol. Bydd raid i rieni gyflwyno tystysgrif geni'r plentyn er mwyn gwirio ei ddyddiad geni.

Rhaid i ddisgyblion dosbarth meithrin sy'n dymuno trosglwyddo i adran y babanod gyflwyno cais am hynny ar yr adeg briodol. Mae ffurflenni cais ar gael gan swyddfa'r ysgol a rhaid eu dychwelyd i'r swyddfa yma hefyd.

Ceisiadau Hwyr

Bydd ceisiadau hwyr yn cael sylw os bydd lleoedd ar gael. Mae'n bosibl y byddan nhw'n cael eu gwrthod os yw nifer y ceisiadau yn uwch na nifer y lleoedd. Er enghraifft, pan fydd pob cais prydlon wedi'i ystyried a'r lleoedd wedi'u dyrannu.

Gweithdrefn cyflwyno apêl

I gyflwyno apêl ynghylch penderfyniad, ysgrifennwch at:

Y Clerc i'r Corff Llywodraethu (dan ofal yr ysgol)
Ysgol Gynradd y Santes Fererid Eglwys Gatholig Rhufain,
Tŷ Fry, Aberdâr CF44 7PP

Yna, bydd modd trefnu bod panel annibynnol yn ystyried y cais.

Ysgol Gynradd y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain

Mae Ysgol Gynradd y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol wirfoddol gymorthedig sy'n gweithredu o dan ymddiriedolaeth Archesgobaeth Caerdydd.

Gweithdrefnau Derbyn

Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gyfrifol am dderbyn plant i'r ysgol ac mae disgwyl iddo ddiogelu natur Gatholig yr ysgol. Mae Ysgol Gynradd y Forwyn Fair yn diwallu anghenion academiaidd, diwylliannol, moesol, cymdeithasol ac ysbrydol y disgyblion hynny sy'n byw yn ardaloedd Aberpennar ac Abercynon. Mae'r llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau gan rieni sydd eisiau i'w plant gael eu haddysgu mewn amgylchedd crefyddol a moesol.

Nifer Derbyn

Y nifer sydd wedi'i phennu yw 17.

Rheoli Materion Derbyn

Llywodraethwyr yr ysgol sy'n rheoli materion o ran yr hawl i roi lle i ddisgybl.

Caiff rhieni gofrestru'u dymuniad i'w plentyn fynychu'r ysgol. Bydd rhestr aros yn cadw'r wybodaeth yma nes bydd hawl gyda'r plentyn i gael ei dderbyn. Fydd hyn ddim yn rhoi'r hawl ddi-gwestiwn i'r plentyn i gael lle. Mae eisiau bodloni'r meini prawf isod ym mhob achos. Bydd y Corff Llywodraethu yn cynnig darpariaeth feithrin amser llawn yn y flwyddyn academiaidd 2017/18.

Meini prawf derbyn disgyblion pan fydd yr ysgol yn llawn

Pe bai'r ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, byddai hi'n blaenoriaethu ceisiadau fel a ganlyn. Ym mhob categori, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i blant cymwys sy'n derbyn gofal. Am hynny, mae'r ysgol yn blaenoriaethu plant sy'n derbyn gofal sy'n dilyn y ffydd uchod. Caiff plant sydd ddim yn dilyn y ffydd ond sy'n derbyn gofal eu blaenoriaethu dros eraill sydd ddim yn dilyn y ffydd.

- I. Disgyblion Catholig sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain.
- II. Brodyr a chwiorydd (e.e. hanner brodyr a chwiorydd, llys frodyr a chwiorydd neu rai wedi'u mabwysiadu/maethu) y disgyblion Catholig sydd yn yr ysgol yn barod.
- III. Disgyblion Catholig sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.
- IV. Enwadau Cristnogol eraill a brodyr a chwiorydd disgyblion sydd yn yr ysgol yn barod.
- V. Mae'n bosibl bydd lleoedd yn cael eu cynnig i blant eraill os ydy'r rhieni neu'r gwarcheidwaid eisiau addysg Gristnogol i'w plant a bod y llywodraethwyr yn fodlon mai awyrgylch ac addysg grefyddol a moesol yr ysgol yw'r hyn sydd bwysicaf i'r ymgeiswyr.

Mae modd dangos ymrwymiad crefyddol drwy dystysgrif bedydd neu wybodaeth offeiriad am ymrwymiad crefyddol.

Pe bai gormod o alw am lleoedd gan ddisgyblion Catholig sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol (ar gael gan yr Awdurdod Lleol), byddai'r ysgol yn rhoi'r lleoedd gwag i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol. I wneud hynny byddwn ni'n mesur y llwybr mwyaf byr a diogel ar droed o'ch cartref i brif fynedfa'r ysgol, gan ddefnyddio cyfrifiannell pellter / mesur trafndiaeth yr Awdurdod Lleol.

Trefniadau Derbyn

- Mae ffurflenni cais ar gael gan swyddfa'r ysgol.
- Rhaid dychwelyd pob ffurflen gais i'r ysgol.
- Bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad drwy lythyr.
- Bydd ceisiadau sy'n cael eu derbyn yn ystod tymor yr ysgol yn cael eu hystyried os oes lle ar gael ac yn unol â'r meini prawf sydd wedi'u nodi uchod neu os bydd y cais yn bodloni Meini Prawf Eithriadau Goddefadwy.
- Nifer yr apeladau cyn dechrau blwyddyn ysgol 2015/16 – 0.

Gweithdrefn cyflwyno apêl

I gyflwyno apêl ynghylch penderfyniad, ysgrifennwch at:

Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Ysgol Gynradd y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain, Heol Meisgyn, Aberpennar, CF45 3UA

Yna, bydd modd trefnu bod panel annibynnol yn ystyried y cais.

Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain

☎ 01443 486840

Mae Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol wirfoddol gymorthedig sy'n gweithredu o dan ymddiriedolaeth Archesgobaeth Caerdydd. Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gyfrifol am dderbyn plant i'r ysgol. Gall dderbyn hyd at 32 o blant.

Trefniadau Derbyn

- I wneud cais, rhaid llenwi ffurflen sydd ar gael o swyddfa'r ysgol.
- Rhaid anfon pob ffurflen gais yn ôl i'r ysgol.
- Bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad drwy lythyr.

Bydd raid i rieni gyflwyno copi o dystysgrif geni'r plentyn er mwyn gwirio ei ddyddiad geni. Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gallu derbyn disgyblion. All cynrychiolaeth gan unrhyw un arall, gan gynnwys llywodraethwr, aelod o'r staff, offeiriad neu unrhyw un sydd wedi'i ethol neu'i gyflogi gan yr Awdurdod Lleol ddim cael ei hystyried fel cynnig neu addewid am le. Dim ond cynnig ar bapur oddi wrth y corff llywodraethu y mae modd ei dderbyn fel cynnig derbyn. Dydy lle mewn Dosbarth Meithrin ddim yn sicrhau lle mewn Dosbarth Derbyn a rhaid i rieni wneud cais am le yn y Dosbarth Derbyn. Fydd blaenoriaeth ddim yn cael ei rhoi i rieni disgyblion sydd wedi mynychu'r Dosbarth Meithrin. Os oes mwy o geisiadau na llefydd, bydd y meini prawf isod yn berthnasol.

Meini prawf i'w cymhwyso pan fydd yr ysgol yn llawn:

Pan fydd gormod o geisiadau, bydd yr ysgol yn derbyn disgyblion yn ôl eu blaenoriaeth ac yn unol â'r weithdrefn isod. Os nad oes modd i'r llywodraethwyr roi lle i bob ymgeisydd o fewn categori penodol, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheiny sy'n byw agosaf i'r ysgol gan ddilyn y llwybr mwyaf diogel.

Pe bai'r ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, byddai hi'n blaenoriaethu ceisiadau fel a ganlyn:

1. Plant Catholig sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal.
2. Plant sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal.
3. Plant sy wedi'u Bedyddio i Eglwys Gatholig Rufeinig sy'n byw yn nalgylch Mihangel Sant*.
4. Brodyr a chwiorydd disgyblion sydd yn yr ysgol yn barod ac sydd wedi'u bedyddio i Eglwys Gatholig Rhufain.
5. Brodyr a chwiorydd disgyblion o enwadau Cristnogol eraill sydd yn yr ysgol yn barod.
6. Brodyr a chwiorydd disgyblion mae'u cefndir o ffydd arall sydd yn yr ysgol yn barod.
7. Disgyblion Catholig sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.
8. Plant eraill

Bydd angen i rieni brofi ymrwymiad crefyddol y plentyn drwy gyflwyno ei dystysgrif fedydd.

* Dalgylchoedd Penodedig:

Bedlinog, Trelewis ac Edwardsville – (AALI Merthyr Tudful); Nelson – (AALI Caerffili); Cilfynydd, Pontypridd, Glyn-coch, Ynys-y-bwl, Pentre'r Eglwys, Beddau, Llantrisant, Dolau, Pont-y-clun, Meisgyn, Tonysguboriau, Efail Isaf – (AALI RhCT); Creigiau, Pen-tyrch, Gwaelod-y-garth, Tŷ Rhiw a Thongwynlais – (AALI Caerdydd).

Lefel Derbyn:

Mae'r Nifer Derbyn wedi'i gosod ar 32.

Gweithdrefn Cyflwyno Apêl:

Mae hawl statudol gyda'r rhieni i gyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â derbyn disgybl. I gyflwyno apêl ynghylch penderfyniad, ysgrifennwch at:

Cadeirydd Corff Llywodraethu Sant Mihangel

Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain, Maes John, Trefforest,

Pontypridd, CF37 1SP

Bydd trefniadau yna'n cael eu gwneud i banel annibynnol ystyried yr apêl. Bydd manylion y broses apelio yn cael eu hanfon at rieni gyda'r llythyr sy'n gwrthod lle (neu o ofyn amdany'n nhw gan y Corff Llywodraethu).

Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain

Mae Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol wirfoddol gymorthedig sy'n gweithredu o dan ymddiriedolaeth Archegobaeth Caerdydd.

Polisi Derbyn

Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gyfrifol am dderbyn plant i'r ysgol ac yn ystyried ceisiadau yn unol â'r trefniadau derbyn sydd wedi'u pennu. Mae Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain yn diwallu anghenion academiaidd, diwylliannol, moesol, cymdeithasol ac ysbrydol y disgyblion hynny sy'n byw yn ardaloedd Cwm Rhondda Fach, Cwm Rhondda Fawr, Tonyrefail a'r Gilfach-goch.

Mae'r llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau gan rieni sydd eisiau i'w plant gael eu haddysgu mewn amgylchedd crefyddol a moesol.

Nifer Derbyn

Y Nifer Derbyn yw 18

Rheoli Materion Derbyn

Llywodraethwyr yr ysgol sy'n rheoli materion derbyn disgyblion.

Caiff rhieni gofrestru'u dymuniad i'w plentyn fynychu'r ysgol. Bydd rhestr aros yn cadw'r wybodaeth yma nes bydd hawl gyda'r plentyn i gael ei dderbyn. Fydd hyn ddim yn rhoi'r hawl ddi-gwestiwn iddo fe i gael lle. Bydd y meini prawf isod yn berthnasol i bob achos lle mae mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

Meini prawf derbyn disgyblion pan fydd yr ysgol yn llawn

Pe bai'r ysgol yn derbyn mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael, byddai hi'n blaenoriaethu ceisiadau fel a ganlyn. Ym mhob categori, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i blant cymwys sy'n derbyn gofal.

- **Disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain ac sydd wedi'u bedyddio i Eglwys Gatholig Rhufain;**
- **Brodyr a chwiorydd Catholig wedi'u bedyddio i ddisgyblion Catholig wedi'u bedyddio sydd yn yr ysgol yn barod;**
- **Enwadau Cristnogol eraill a brodyr a chwiorydd disgyblion sydd yn yr ysgol yn barod;**
- **Mae'n bosibl cynnig lleoedd i blant eraill os ydy'r rhieni neu'r gwarcheidwaid eisiau addysg Gristnogol i'w plant.**

Pe bai gormod o alw am leoedd gan ddisgyblion Catholig sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, byddai'r ysgol yn rhoi'r lleoedd gwag i'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae map o'r dalgylch ar gael ar gais. Y pellter agosaf, yn yr achos yma, yw'r llwybr mwyaf byr a diogel ar droed o'ch cartref i brif fynedfa'r ysgol.

Trefniadau Derbyn

- Mae'r ffurflenni cais ar gael o swyddfa'r ysgol ac ar wefan yr ysgol. Rhaid dychwelyd pob ffurflen gais i'r ysgol.
- Bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad drwy lythyr.
- Caiff ceisiadau eu derbyn drwy gydol y flwyddyn ysgol.

Gweithdrefn cyflwyno apêl

I gyflwyno apêl ynghylch penderfyniad i beidio â derbyn, ysgrifennwch at:

**Cadeirydd Corff Llywodraethu'r Ysgol
Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain
Stryd y Briallu, Tonypandy CF40 1BJ**

Yna, bydd modd trefnu bod panel annibynnol yn ystyried y cais.

Cardinal Newman Catholic School

☎ 01443 494110

Mae Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol Gatholig wirfoddol gymorthedig. Mae'r ysgol yn hollgynhwysol sy'n agored i bawb sy'n rhannu ein gwerthoedd, ein nodau a'n credoau. Serch hynny, mae gan y Llywodraethwyr ddyletswydd gyfreithiol i gynnal cymeriad Catholig yr ysgol.

Polisi Derbyn

Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis o ran ysgol ar gyfer eu plant. Bydd plant yn cael eu derbyn yn unol â dewis y rhieni ac yn amodol ar argaeledd llefydd. Pan fydd mwy na 202 o geisiadau, bydd yr ysgol yn derbyn disgyblion yn ôl blaenoriaeth ac yn unol â'r weithdrefn isod.

Os nad oes modd i'r llywodraethwyr dderbyn pob ymgeisydd o fewn categori penodol, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ymgeiswyr roedd eu ceisiadau wedi ein cyrraedd ni'n brydlon ac erbyn y dyddiad cyhoeddus. Os yw'r ysgol yn methu â dyrannu llefydd i gategori cyfan penodol, yna, bydd y prawf agosrwydd yn cael ei gymhwyso i'r categori cyfan hwnnw. Bydd agosrwydd yn cael ei fesur o ymyl y palmant cyhoeddus agosaf i'r cartref i brif gatiâu'r ysgol ar ffyrdd cyhoeddus mewn car.

Felly, bydd disgyblion yn cael eu derbyn i Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn ôl y meini prawf canlynol:

- 1. Plant Catholig sy'n derbyn gofal / sydd wedi derbyn gofal.**
- 2. Plant eraill sy'n derbyn gofal / sydd wedi derbyn gofal.**
- 3. Mae cyfrifoldeb ar yr ysgol i wasanaethu'r ysgolion a'r plwyfi sy'n ei bwydo hi. Y plant yma fydd yn cael blaenoriaeth.**
 - a. Dyma'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo: Mihangel Sant, Trefforest; Y Santes Helen, Caerffili; Y Forwyn Fair, Aberpennar ac Y Seintiau Gabriel a Raphael, Tonypandy.
 - b. Rydyn ni wedi atodi rhestr o blwyfi y mae Cardinal Newman yn eu gwasanaethu.
- 4. Bydd gan blant Catholig sydd wedi'u bedyddio yn y dalgylch flaenoriaeth dros blant eraill sy'n dymuno cael lle.**
- 5. Bydd plant Catholig sydd wedi'u bedyddio sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol yn cael eu hystyried nesaf.**
- 6. Bydd brodyr a chwiorydd plant sydd yn yr ysgol yn barod yn cael eu hystyried nesaf.**
- 7. Bydd plant o enwadau Cristnogol eraill sydd wedi'u bedyddio yn cael eu hystyried nesaf.**
- 8. Bydd hi'n bosibl cynnig lleoedd i blant eraill sydd ddim yn Gatholigion os yw'r rhieni neu'r gwarcheidwaid eisïau addysg seiliedig ar ffydd i'w plant, a bod y Llywodraethwyr yn fodlon mai awrygylch ac addysg grefyddol a moesol yr ysgol yw'r hyn sydd bwysicaf i'r ymgeiswyr.**

Trefniadau Derbyn

Os yw rhiant/gwarcheidwad wedi dewis cyflwyno cais am le yn yr ysgol ac mae'r Llywodraethwyr yn gwrthod y cais, bydd gan y rhiant/gwarcheidwad yr hawl i apelio. Dylai apel yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr i beidio â derbyn plentyn i'r ysgol gael ei anfon at:

Ms Rebecca Crumbie (Clerc i'r Corff Llywodraethu)
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain
Heol Dynea, Rhydfelen, Pontypridd CF37 5DP

Plwyfi Cyfrannol

- Sant Dyfrig, Trefforest
- Eglwys yr Holl Saint Llantrisant
- Y Forwyn Fair Aberpennar
- St. Thomas Abercynon
- Seintiau Gabriel a Raphael Tonypandy
- Santes Fair Magdalen Ynys-hir
- San Pedr Bargoed
- St. Helen Caerffili

Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru

☎ 01685 875414

Polisi Derbyn:

Mae Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru yn derbyn plant o Aberdâr, Cwm Cynon, ardaloedd cyfagos Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac ardaloedd agosaf Cyngor Bwrdeistref Castell Nedd a Phort Talbot, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Caerffili a sir Powys.

Mae'r ysgol yn cynnig 160 o lefydd yn seiliedig ar nifer derbyn safonol Llywodraeth Cymru a chapasiti'r ysgol. Yn aml mae mwy o geisiadau na sydd o lefydd ym mlwyddyn 7. Mae'r lleoedd yma, felly, yn cael eu rhoi gan y Llywodraethwyr i'r ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf yn ôl trefn y blaenoriaethau yma:

1. Iant y gall eu teuluoedd ddangos eu bod nhw'n Anglicaniaid mewn gair a gweithred (mae angen tystlythyr gan yr Eglwys) ac sy'n ddisgyblion mewn Ysgol Gynradd Anglicanaidd;
2. Plant sy'n mynychu Eglwys Anglicanaidd, fel ym maen prawf 1, sy'n ddisgyblion mewn Ysgol Gynradd Gymuned;
3. Disgyblion eraill mewn Ysgol Gynradd Anglicanaidd;
4. Plant i deuluoedd a all ddangos eu bod nhw'n Gristnogion mewn gair a gweithred sy'n aelodau o Eglwys Gristnogol arall (mae angen tystlythyr gan aelodau o Cytûn neu'r Cynghrair Efengylaidd);
5. Disgyblion eraill o ysgolion eglwysig sydd ddim yn Aglicanaidd;
